Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes
## Rhaid i Gymru weithredu

Hydref 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
X: **@SeneddCydraddoldeb**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes
## Rhaid i Gymru weithredu

Hydref 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Jane Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Terminoleg** 5

**Rhagair y Cadeirydd** 7

**Argymhellion a chasgliadau** 8

**1. Cefndir** 11

Cydlyniant cymdeithasol yn y DU – rhaniadau'n mudlosgi 12

Camau gweithredu Llywodraeth y DU i gryfhau cydlyniant 13

Adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gydlyniant cymdeithasol yn y DU 14

Ein barn ni 16

**2. Cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru** 17

Arweinyddiaeth wleidyddol 21

Strategaeth Cydlyniant 2009 22

Y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol 25

Mesur cydlyniant cymdeithasol 27

Rôl y sector gwirfoddol 29

Ein barn ni 32

**3. Bygythiadau sylfaenol i gydlyniant cymdeithasol** 34

Anghydraddoldeb economaidd a thlodi 34

Ein barn ni 36

Heriau sy'n wynebu cymunedau lleol 37

Meithrin mannau cymunedol 38

Ein barn ni 41

Democratiaeth ar brawf 41

Ein barn ni 43

Y cyfryngau cymdeithasol, camwybodaeth a thwyllwybodaeth ........ 44

Ein barn ni ........ 46

Agweddau at geiswyr noddfa a mudwyr ........ 47

Ein barn ni ........ 49

Lletya ffoaduriaid a cheiswyr lloches ........ 50

Ein barn ni ........ 53

Cynnydd mewn eithafiaeth a'r asgell dde eithafol ........ 54

Ein barn ni ........ 57

**Atodiad 1 : Cylch Gorchwyl ........ 58**

**Atodiad 2 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 59**

**Atodiad 3 : Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ........ 61**

Gwybodaeth ychwanegol ........ 62

**Atodiad 4: Crynodeb o waith ymgysylltu ........ 63**

# Terminoleg

Esboniad o dermau ac iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Cydlyniant cymdeithasol:** Mae ein hymchwiliad yn mabwysiadu'r diffiniad a nodwyd gan y Fonesig Sara Khan, sef bod cydlyniant cymdeithasol yn ymwneud â sut rydym yn byw'n dda gyda'n gilydd mewn democratiaeth amrywiol a sut rydym yn mynd i'r afael ag anghytundebau mewn modd heddychlon er lles pawb, er gwaethaf y gwahaniaethau rhyngom.[1]

**Asgell dde eithafol**: Mae ein hymchwiliad yn mabwysiadu diffiniad Hope not Hate o derm cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer grwpiau i'r dde o wleidyddiaeth brif ffrwd. Dyma hefyd oedd y derminoleg a ddefnyddiwyd gan lawer o'r rhai a fu'n rhoi tystiolaeth.

**Aflonyddu sy'n cyfyngu ar ryddid**: ffurfiau brawychus, bygythiol a chamdriniol o aflonyddu sy'n arwain yn uniongyrchol at bobl a sefydliadau yn sensro eu hunain neu'n osgoi arfer eu hawliau democrataidd oherwydd ofn.

**Arweinwyr mudo ac Adsefydlu**: swyddogion y llywodraeth neu'r trydydd sector sy'n goruchwylio cymorth i geiswyr noddfa yng Nghymru.

**Ceisiwr lloches:** term cyfreithiol penodol. Ceisiwr lloches yw person sydd wedi ffoi o'i famwlad ac wedi gwneud cais am loches mewn gwlad arall, ond nad yw ei gais wedi cael ei brosesu neu ei benderfynu eto. Mae'n "ceisio lloches", sef yr hawl gyfreithiol i geisio amddiffyniad mewn gwlad arall rhag erledigaeth. Mae person yn parhau i fod yn geisiwr lloches nes i'w gais gael ei dderbyn (ac mae'n dod yn ffoadur) neu gael ei wrthod.

**Ceiswyr noddfa**: term ehangach, mwy tosturiol nad yw'n statws cyfreithiol. Mae'n pwysleisio bod person yn chwilio am ddiogelwch ac amddiffyniad, neu "noddfa". Mae'n well gan City of Sanctuary UK ac eraill y term hwn oherwydd mae'n canolbwyntio ar ddyngarwch y person a'i angen am ddiogelwch, yn hytrach na'i statws mewnfudo. Gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio ceiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl eraill sydd wedi cael eu gorfodi i fudo, waeth beth fo'u statws cyfreithiol.

**Twyllwybodaeth:** creu a/neu rannu gwybodaeth ffug yn fwriadol gyda'r bwriad o dwyllo neu gamarwain.

[1] Y Fonesig Sara Khan, The Khan Review: Threats to Social Cohesion and Democratic Resilience (Mawrth 2024)

Camwybodaeth: rhannu gwybodaeth ffug yn anfwriadol.

# Rhagair y Cadeirydd

Mae diffyg ymddiriedaeth dybryd mewn gwleidyddiaeth i ddatrys argyfwng costau byw andwyol law yn llaw â thoriadau di-baid mewn adnoddau cyhoeddus yn ychwanegu tanwydd at dân anfodlonrwydd sy'n bygwth tanseilio ein democratiaeth.

Yn draddodiadol, defnyddiwyd baneri i uno pobl y tu ôl i nod cyffredin; bellach fe'u dehonglir fel symbolau rhaniad, ofn a bygythiadau o drais.

Mae disgwrs democrataidd yn rhywbeth anniben, amherffaith ond y dewis arall yw gwneud penderfyniadau trwy orfodaeth lle mae ewyllys y bwli mwyaf yn cario'r dydd.

Fel gwleidyddion etholedig o bedair plaid wleidyddol, mae'n ddyletswydd arnom i beidio â throi ein cefn ar yr heriau hyn. Yn hytrach, rhaid i ni ganfod atebion i fygu'r goelcerth o anfodlonrwydd sy'n mudlosgi a lliniaru ceisiadau malaen i fegino fflamau rhaniad.

Rhaid wrth arweinyddiaeth gan lywodraethau yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y pedair gwlad i fynd i'r afael â chamwybodaeth, sy'n gallu cael ei lledaenu'n hawdd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi casglu digon o dystiolaeth am ymdrechion y dde eithafol i gynnig atebion gor-syml i broblemau cymhleth, yn cynnwys y rhai sy'n tanseilio rheolaeth y gyfraith. O ganlyniad mae gweithwyr rheng flaen yn poeni am eu diogelwch personol a diogelwch y bobl y maen nhw'n ceisio eu cynorthwyo.

Mae Cymru wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn cynefin a chroeso. Mae ein hadroddiad yn cynnwys llawer o enghreifftiau da o bobl yn dod at ei gilydd i ddatrys gwrthdaro, helpu ei gilydd mewn adfyd a chryfhau cydlyniant cymdeithasol.

Rhaid i ni weithredu'n awr i atal cymunedau cyfan rhag mynd yn wenfflam.

Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes: rhaid i Gymru weithredu.



**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Argymhellion a chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol i lunio set o gamau gweithredu i'w cyflawni ar unwaith, yn y tymor canolig ac yn y tymor hir. Dylai'r grŵp ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o lywodraeth leol, yr heddlu, timau cydlyniant, y trydydd sector, y Bartneriaeth Mewnfudo Strategol a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu'r camau gweithredu hynny. Rydym yn awgrymu y dylai'r gwaith hwn adlewyrchu'r dull gweithredu ar unwaith a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r argyfwng costau byw. Mae'n anodd gorbwysleisio brys y gwaith hwn ac rydym yn disgwyl i'r llywodraeth roi'r argymhelliad hwn ar waith yn ddi-oed. Dylai'r Grŵp Arbenigol fod wedi'i sefydlu erbyn canol mis Tachwedd a dylai gyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn. Dylai gwaith y Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol gynnwys:

- Datblygu dogfen egwyddorion arweiniol cenedlaethol cyffredinol ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, yn debyg i '10 egwyddor' Cenedl Noddfa.
- Mabwysiadu fframwaith ar gyfer mesur cydlyniant cymdeithasol a monitro gwaith y rhaglen cydlyniant cymunedol, gan ystyried gwaith Cyngor Oldham.
- Adolygu cyllid ar gyfer y timau cydlyniant, gan gytuno ar yr hyn sydd ei angen y tu hwnt i fis Mawrth 2026.
- Galluogi cyfleoedd newydd a gwell ar gyfer rhannu arferion gorau yn genedlaethol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Gallai hyn gynnwys datblygu canllaw arferion gorau. ...................... Tudalen 33

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn gyflym a chymryd camau i amddiffyn mannau cymunedol. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno Hawl y Gymuned i Brynu a dylid ystyried hyn ynghyd ag adroddiad y Comisiwn Asedau Cymunedol a ddisgwylir yn yr hydref. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau nesaf erbyn diwedd 2025. ...................... Tudalen 41

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth ymdrin â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Dylai hyn gynnwys:

- gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, timau cydlyniant cymunedol a'r trydydd sector, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael a chydgysylltu negeseuon cyson.

- comisiynu Dangosfwrdd HateLab neu wasanaeth monitro tebyg i dynnu sylw at fflachbwyntiau neu bryderon sy'n gofyn am gamau gweithredu neu adnoddau.
- archwilio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Oldham i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. ........................................................... Tudalen 47

**Argymhelliad 4.** Mewn ymateb i'r bygythiadau cynyddol i gydlyniant cymdeithasol o ganlyniad i gynnydd safbwyntiau a gweithgareddau eithafol, dylai'r Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol nodi'r heriau y mae hyn yn eu peri i Gymru a nodi'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â gweithgareddau'r asgell dde eithafol a all greu rhaniad ac, yn y pen draw, arwain at aflonyddwch cymunedol a welsom yn Llanelli.......................................................................................................................... Tudalen 57

**Casgliad 1.** Mae ein hadroddiad yn rhoi sylw pwysig i'r heriau rydym yn eu hwynebu yng Nghymru, y cyfleoedd i gryfhau cydlyniant ac enghreifftiau o arferion da. O ystyried brys cynyddol y bygythiadau i gydlyniant cymdeithasol a'r gwaith sy'n digwydd ar lefel y DU, rydym yn disgwyl i Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddaru'r Senedd ar unwaith am ganlyniadau'r cydweithio hwn gan y pedair gwlad. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, y cyhoeddiad diweddar am gyllid 'Balchder Lle' a'r cyfarfod â'r pedair gwlad ac unrhyw gamau perthnasol eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd. ........................................................................................................................................................ Tudalen 16

**Casgliad 2.** Yn anffodus, mae'r dadansoddiad diweddaraf o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i gefnogi'r broses o roi'r ddyletswydd ar waith. O ystyried amlygrwydd y ddyletswydd yn nhystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet, rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar dystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a diweddaru'r Pwyllgor am y camau y bydd yn eu cymryd yn dilyn ei hadolygiad. ............................................................................................................................. Tudalen 36

**Casgliad 3.** Mae'r heriau cynyddol sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a sefydliadau yn golygu bod angen cymryd camau gweithredu ar unwaith i hybu iechyd democrataidd yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i gynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau drwy ddulliau democrataidd cydgynghorol. Dylai barhau â'i gwaith gydag arbenigwyr ar iechyd democrataidd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod gan y rhai sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus y sgiliau a'r adnoddau i gefnogi cyfranogiad a chynnwys effeithiol. ........................................................................................................................................................ Tudalen 44

**Casgliad 4.** Dylai pob gwleidydd ymddwyn yn gyfrifol wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â cheiswyr noddfa. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth glir yn y ffordd y mae'n cyfleu negeseuon o'r fath a chreu deialog gyda'r cyhoedd, yn enwedig y rhai sydd â phryderon ynghylch lletya ceiswyr lloches a defnyddio gwestai. Bydd angen llety i geiswyr lloches ledled y DU o hyd. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio â Llywodraeth y DU i dreialu tai amgen ac osgoi defnyddio gwestai, ond rhaid iddi wneud hyn drwy ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu ag awdurdodau lleol, y trydydd sector a chymunedau lleol ym mhob achos. ........ Tudalen 54

# 1. Cefndir

Cytunodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i edrych ar gydlyniant cymdeithasol yng ngoleuni tensiynau cynyddol o fewn cymunedau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU. Gallai methiant i fynd i'r afael â digwyddiadau ynysig arwain at aflonyddwch sifil torfol. Yn absenoldeb sylfaen dystiolaeth gadarn ar gydlyniant cymdeithasol, gwnaethom geisio deall yr heriau a wynebir, yr effaith ar gysylltiadau mewn cymunedau, a rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth. Mae ein hadroddiad, Cyd-dynnu nid tynnu'n groes: rhaid i Gymru weithredu, yn nodi'r bygythiadau allweddol i gydlyniant cymdeithasol a'r camau gweithredu brys sydd eu hangen i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd i gryfhau cydlyniant ein cymunedau.

**1.** Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy ymgynghoriad ysgrifenedig, grwpiau ffocws, trafodaeth ford gron, ymweliadau â phrosiectau cymunedol a sesiynau tystiolaeth lafar yn y cnawd ac ar Zoom. Mae manylion llawn ar gael yn yr Atodiadau.

**2.** Mae'r cwestiynau allweddol i ni eu hystyried – sef y cylch gorchwyl – ar gael yn Atodiad 1. Mae rhagor o gefndir i'r ymchwiliad ar gael ar hafan yr ymchwiliad.

**3.** Diolchwn yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

## Cydlyniant cymdeithasol yn y DU – rhaniadau'n mudlosgi

**4.** Arweiniodd llofruddiaeth tair merch ifanc yn Southport ym mis Gorffennaf 2024 at anrhefn a therfysgoedd cymunedol mewn dros 35 o leoliadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.[2]

**5.** Yn fuan iawn, gwnaeth dicter y cyhoedd at y drosedd ffiaidd hon arwain at dargedu Mwslimiaid, ceiswyr lloches a lleiafrifoedd gweladwy yn yr achosion gwaethaf o aflonyddwch a thrais sifil yn y DU ers degawdau. Mae'r digwyddiadau hyn, wedi'u hysgogi gan gamwybodaeth a theimladau gwrth-fewnfudo cynyddol, wedi codi pryderon ynghylch cydlyniant ledled y DU ac wedi hoelio sylw ar y mater hwn.

**6.** Yn dilyn y terfysgoedd, rhybuddiodd arbenigwyr blaenllaw fod trais yn y dyfodol yn debygol os na fydd gweithredu.[3] Yn haf 2025, gwelwyd aflonyddwch sifil a phrotestiadau eto, yn bennaf yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan dargedu gwestai oedd yn lletya ceiswyr lloches. Yng Nghymru, cynhaliwyd protestiadau y tu allan i westy yn y Rhws, Bro Morgannwg, ac i wrthwynebu cynlluniau posibl i ddarparu llety i geiswyr lloches yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint.

**7.** Ar 13 Medi 2025, aeth dros 100,000 o bobl i'r rali 'Uno'r Deyrnas' ('*Unite the Kingdom*') fel y'i galwyd yn Llundain a drefnwyd gan yr asgell dde eithafol. Gyda chwech ar hugain o swyddogion yr heddlu wedi'u hanafu, pedwar ohonynt yn ddifrifol, bu condemniad eang o'r trais a'r rhethreg atgas.

**8.** Cynhaliwyd protest 'stopiwch y cychod' ('*stop the boats*') yn y Drenewydd ar yr un diwrnod, gyda thua 400 o bobl yn bresennol, a gwnaeth tua 200 o bobl ymgynnull mewn rali ar wahân i ddangos cefnogaeth i geiswyr noddfa. Er bod protestiadau o'r natur hon yn peri pryder, mae'r gwrth-brotest yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru sydd ddim yn rhannu'r pryderon hyn a'u bod yn croesawu ceiswyr noddfa ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad at ein cymdeithas.

**9.** Roedd yr ymosodiad ar synagog ym Manceinion ar 2 Hydref yn weithred derfysgaeth lle bu farw tri o bobl, gan gynnwys yr ymosodwr, ac anafwyd sawl un arall. Mae hyn wedi cynyddu ofnau'r gymuned ymhellach, gyda'r heddlu'n cynyddu presenoldeb mewn mannau cyhoeddus, y tu allan i synagogau a mannau addoli eraill i roi tawelwch meddwl ac amddiffyniad.

[2] British Future, Belong and Together Coalition, After the Riots (Medi 2024)
[3] British Future, Belong and Together Coalition, After the Riots (Medi 2024)

## Camau gweithredu Llywodraeth y DU i gryfhau cydlyniant

**10.** Ym mis Mawrth 2021, penodwyd y Fonesig Sara Khan yn Gynghorydd Annibynnol Llywodraeth y DU ar gyfer Cydlyniant Cymdeithasol a Gwydnwch fel rhan o weithredu'r llywodraeth i fynd i'r afael ag eithafiaeth. Gwnaeth Adolygiad Khan argymhellion i feithrin gwydnwch yn erbyn eithafiaeth, deall ei heffaith a chefnogi ei dioddefwyr yn well.[4]

**11.** Tynnodd yr adroddiad sylw at heriau sylweddol sy'n bygwth cydlyniant cymdeithasol a lles democratiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys dadrithiad â democratiaeth yn cyflawni newid, a diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau a'r elît gwleidyddol. Tynnodd Adolygiad Khan sylw at y ffaith bod eithafwyr a gweithredwyr malaen eraill yn camfanteisio ar y tensiynau hyn i hau hedyn rhagor o raniadau.

> *"The reports and reviews of the last 20 years have focused predominately on the racial and religious tensions and clashes between white majority communities and ethnic or religious minority communities. While this is an important area to consider, cohesion can break down along many other fault lines, such as political affiliations, protected characteristics, class and the holding of certain beliefs and opinions. Similarly, we also need to consider tensions at an intra racial and intra-religious minority level."*[5]

**12.** Tynnodd yr Adolygiad sylw at ffenomen o'r enw '**aflonyddu sy'n cyfyngu ar ryddid**', gan ddadlau ei fod wedi dod yn gyffredin a'i fod yn erydu cydlyniant cymdeithasol a hawliau democrataidd a rhyddid.

**13.** Galwodd adroddiad 2024 ar Lywodraeth y DU i ailfeddwl yn llwyr sut y mae'n mynd i'r afael ag eithafiaeth ac yn amddiffyn gwydnwch democrataidd. Rhybuddiodd y gall yr eithafiaeth, y polareiddio a'r aflonyddwch democrataidd presennol, ynghyd â materion cymdeithasol ac economaidd, achosi hyd yn oed mwy o aflonyddwch. Er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau hyn, argymhellodd fod

[4] Y Fonesig Sara Khan, The Khan Review: Threats to Social Cohesion and Democratic Resilience (Mawrth 2024)
[5] Y Fonesig Sara Khan, The Khan Review: Threats to Social Cohesion and Democratic Resilience (Mawrth 2024)

angen ailwampio'r ffordd y mae'r Deyrnas Unedig yn meithrin ac yn cyflawni cydlyniant cymdeithasol.[6]

**14.** Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fesurau i gefnogi cydlyniant cymdeithasol yn y 'Cynllun ar gyfer Cymdogaethau' gyda rhaglen gwerth £1.5 biliwn dros y degawd nesaf. Mae'n amlinellu glasbrint i ddod â chymunedau ynghyd, a chyllid ar gyfer 75 o leoliadau i wella safonau byw a rhoi mwy o ran i bobl yn eu dyfodol. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yng Nghymru yn cynnwys y Barri, Cwmbrân, Merthyr Tudful, y Rhyl a Wrecsam.[7] Fodd bynnag, nid yw manylion sut y bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar gael eto. Ar 29 Medi cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid newydd gwerth £214 miliwn ar gyfer cymunedau Cymru, gan gynnwys £35 miliwn ar gyfer 22 awdurdod lleol Cymru i'w ddefnyddio dros y ddwy flynedd nesaf i wella cymdogaethau ac adfer balchder. Mae cyllid 'Balchder Lle' yn canolbwyntio ar rymuso cymunedau i benderfynu sut y dylid gwario'r arian.[8] Fodd bynnag, nid yw manylion sut y bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith Llywodraeth Cymru ar gydlyniant yn hysbys eto.

**15.** Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Ysgrifennydd y Cabinet) at gyfarfod rhwng y pedair gwlad i edrych ar ddiffiniadau cyffredin, mesuriadau fframweithiau a materion sy'n gysylltiedig â chydlyniant ledled y DU.[9]

## Adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gydlyniant cymdeithasol yn y DU

**16.** Mae deall cyd-destun ehangach cydlyniant cymdeithasol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at raniad ac sydd wedi arwain at aflonyddwch sifil.

**17.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd British Future, Belong a'r Together Coalition bapur 'After the Riots' sy'n nodi cynllun 12 pwynt o gynigion polisi i fynd i'r afael â'r hyn y mae'n ei alw'n wactod ar bolisi cymunedau.[10]

**18.** Nod Comisiwn trawsbleidiol newydd, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2025, yw ymgysylltu â phobl i wella cydlyniant cymdeithasol.[11] Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad sylfaenol sy'n rhoi ciplun o gysylltiad,

[6] Y Fonesig Sara Khan, The Khan Review: Threats to Social Cohesion and Democratic Resilience (Mawrth 2024)
[7] Llywodraeth y DU, Plan for Neighbourhoods: prospectus (Mehefin 2025)
[8] Llywodraeth y DU, Pride in Place Impact Fund: prospectus (Medi 2025)
[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[10] British Future, Belong a'r Together Coalition, After the Riots (Medi 2024)
[11] Y Comisiwn Annibynnol ar Gymuned a Chydlyniant

rhaniad a bywyd cymunedol ledled y DU. Mae'n nodi'r heriau a'r bygythiadau i fywyd cymunedol ym Mhrydain, gan eu rhannu'n dueddiadau hirdymor sydd wedi gwanhau cysylltiadau cymunedol (seilwaith cymunedol sy'n dirywio, llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau ac anghydraddoldeb cynyddol) a'r bygythiadau newydd sy'n dod i'r amlwg (camreoli mewnfudo, pwysau costau byw ac eithafiaeth sy'n cael ei sbarduno gan y cyfryngau cymdeithasol). Mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

> *"These forces are converging into something altogether more dangerous - leaving the UK sitting on* ***a tinderbox of disconnection and division****."*[12]

**19.** Mae'n dadlau na fu unrhyw ymdrech wirioneddol i ddatblygu strategaeth hirdymor gynaliadwy i fynd i'r afael â gwraidd y broblem, a dim ond pan fydd tensiynau'n fflachio y rhoddir sylw i'r mater.

**20.** Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad, mae'r Comisiwn wedi cychwyn sgwrs genedlaethol ledled y DU i glywed yn uniongyrchol gan bobl am eu profiad o gysylltiad a pherthyn, a'r hyn y maent am ei weld yn newid.

**21.** Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y sefydliad More in Common ei adroddiad, *Shattered Britain*, a oedd yn edrych ar y gwerthoedd dyfnach sy'n gweithredu fel rhaniadau ym Mhrydain yn y 2020au ac sy'n seiliedig ar 'saith segment' o fewn poblogaeth Prydain. Nod yr ymchwil yw archwilio sut y gallwn fyw orau gyda'n gilydd ac mae'n nodi pedwar ffactor sy'n sbarduno'r hyn y mae'n ei ddisgrifio fel yr anniddigrwydd a'r anfodlonrwydd presennol gyda'r sefyllfa bresennol ym Mhrydain:

- argyfwng ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a'n sefydliadau;
- blino ar wleidyddiaeth a brwydrau bywyd bob dydd;
- ymdeimlad cynyddol o fygythiad ac ansicrwydd; a
- llai o hyder mewn rheolaeth gwleidyddion neu allu pobl gyffredin i reoli'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau eu hunain."[13].

[12] British Future, Belong a'r Together Coalition, After the Riots (Medi 2024)
[13] More in Common, Shattered Britain (Gorffennaf 2025)

## Ein barn ni

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gydlyniant cymunedol. Fodd bynnag, mae rhai ysgogiadau dylanwad sy'n ymwneud â chydlyniant heb eu datganoli. Mae'r crheoleiddio'r rhyngrwyd. Mae penderfyniadau a wneir ym mhob un o'r meysydd polisi hyn yn cael effaith ar gydlyniant cymdeithasol yng Nghymru.

Os ydym am fynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi cydlyniant cymdeithasol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio. Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn cydlyniant yng Nghymru drwy'r 'Cynllun ar gyfer Cymdogaethau', cyllid 'Balchder Lle' a chyfarfod Ysgrifennydd y Cabinet â Llywodraeth y DU i drafod cydlyniant cymdeithasol yn galonogol. Fodd bynnag, mae angen mynd ati ar frys i wneud mwy i alinio polisïau ar draws y pedair gwlad a datblygu ymateb cydgysylltiedig i faterion sy'n tanseilio cydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb am sicrhau cydweithio ar draws pob maes polisi, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Os ydym am atal rhagor o aflonyddwch a dirywiad ar draws cymunedau Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth gref a dull strategol i fynd i'r afael â'r heriau hyn ar draws ein cenedl.

**Casgliad 1.** Mae ein hadroddiad yn rhoi sylw pwysig i'r heriau rydym yn eu hwynebu yng Nghymru, y cyfleoedd i gryfhau cydlyniant ac enghreifftiau o arferion da. O ystyried brys cynyddol y bygythiadau i gydlyniant cymdeithasol a'r gwaith sy'n digwydd ar lefel y DU, rydym yn disgwyl i Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddaru'r Senedd ar unwaith am ganlyniadau'r cydweithio hwn gan y pedair gwlad. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, y cyhoeddiad diweddar am gyllid 'Balchder Lle' a'r cyfarfod â'r pedair gwlad ac unrhyw gamau perthnasol eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd.

## 2. Cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cymryd camau i gryfhau cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae eu tystiolaeth yn tynnu sylw at ystod o bolisïau a rhaglenni a chyfoeth o brosiectau cymunedol sydd wedi ceisio cryfhau cydlyniant. Fodd bynnag, nid yw strategaeth gyffredinol y llywodraeth yn adlewyrchu'r heriau diweddaraf; ac nid yw'n cynnwys sylfaen dystiolaeth gadarn i ganfod a yw ymdrechion presennol yn cael effaith.

**22.** Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, mae grwpiau cymunedol, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio i gefnogi gwahanol gymunedau a Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei wneud bob dydd yng Nghymru i sicrhau bod pobl a chymunedau'n cyd-dynnu'n dda.

**23.** Ni phrofodd Cymru aflonyddwch gwrth-fudo yn ystod haf 2024 fel y gwelwyd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad manwl wedi'i gynnal eto i ddeall pam. Holodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition a yw hyn oherwydd bod Cymru wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran sicrhau cydlyniant cymdeithasol, ond hefyd fod yr asgell dde eithafol yn llai trefnus a/neu fod y gwrthwynebiad gwrth-hiliol wedi'i sefydlu'n dda yng Nghymru.[14]

**24.** Fodd bynnag, nododd y ddau fod terfysgoedd haf 2024 wedi cael effaith uniongyrchol ar eu staff a'u gallu i weithredu. Roedd un aelod o staff yn cofio poeni am y gymuned yr oedd yn gweithio gyda hi, ac yn gallu gweld â'i lygaid ei hun pa mor ofnus oedden nhw i adael eu cartrefi/llety.[15]

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC24, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC24, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru

**25.** Ers hynny, mae Cymru hefyd wedi gweld protestiadau ac aflonyddwch gwrth-fudo yn y Rhws a'r Wyddgrug yn ystod mis Awst 2025 ac yn y Drenewydd yn mis Medi 2025.

**26.** Ar hyn o bryd, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn olrhain tri dangosydd allweddol o gydlyniant cymunedol. Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at ddata o'r casgliad diwethaf yn 2021-2022 a ddangosodd fod dau o bob tri oedolyn (64%) yn cytuno â'r tri mesur hyn o gydlyniant cymunedol:

- mae pobl yn yr ardal o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda;
- mae pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth; ac
- maent yn perthyn i'r ardal leol.

**27.** Ers cael y dystiolaeth hon, mae data'r arolwg diweddaraf yn dangos bod y gyfran sy'n cytuno â'r tri mesur bellach yn 58%, chwe phwynt canran yn is nag yn 2021-22. Y prif reswm am y newid oedd bod llai o bobl yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol: 79% yn 2021-22 o'i gymharu â 73% yn 2024-25.[16]

**28.** Mae'r dirywiad hwn mewn cydlyniant cymunedol yn cael ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a glywsom. Yn ôl CLILC, er bod data'n awgrymu bod y mwyafrif o bobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, mae troseddau casineb a bygythiadau i gydlyniant cymdeithasol yn bresennol drwy'r amser ac yn gysylltiedig â datblygiadau gwleidyddol Cymru, y DU a byd-eang mewn perthynas â mewnfudo, ffoaduriaid, hil, gwrthdaro ac eithafiaeth.[17]

**29.** Dywedodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ei fod wedi gweld cynnydd yn nifer yr aelodau o gymunedau ledled Cymru sy'n adrodd am ddigwyddiadau o wahaniaethu ac a nododd "*eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod cyfiawnhau eu hymdeimlad o berthyn o fewn eu lleoliad addysg, gweithle neu fel rhan o'u cymuned*."[18].

**30.** Tynnodd Race Council Cymru a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru sylw at gynnydd mewn troseddau casineb ac iaith casineb (heb eu cofnodi i gyd),

[16] Arolwg Cenedlaethol Cymru - prif ganlyniadau: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 (Awst 2025)
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC29, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

yn enwedig yn erbyn unigolion LHDTC+, lleiafrifoedd crefyddol a cheiswyr lloches.[19] Dywedodd yr Athro Ted Cantle:

> *"Race and faith have become linked to a much broader political identity that is not only anti-migrant, anti-asylum seeker, anti-Muslim, but is also anti-politics, it's anti-elite, it's anti-rules-based democracy and it's misogynistic."*[20]

**31.** Pwysleisiodd y Fonesig Sara Khan y dirywiad mewn cydlyniant cymdeithasol, lefelau ymgysylltiad dinesig is a'r rhybuddion llym am lefelau cynyddol o ddadrithiad â democratiaeth a'r diffyg ymddiriedaeth yn ein sefydliadau democrataidd. Nododd hefyd fod data cyfres amser dros ddeugain mlynedd wedi dangos bod pethau'n gwaethygu ers amser maith ac nad ydym yn gwneud digon i atal na gwrthdroi hynny.[21]

**32.** Cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddigwyddiadau yn y pum mlynedd diwethaf sy'n awgrymu'r tensiynau sy'n bresennol mewn rhai cymunedau yng Nghymru - teimladau gwrth-fudo a heriau economaidd-gymdeithasol a all danseilio cydlyniant cymdeithasol os na chânt eu datrys.[22]

**33.** Cydnabu Llywodraeth Cymru fod ein hymchwiliad i gydlyniant cymdeithasol yn amserol gan fod y bygythiadau i gydlyniant cymdeithasol yn ddwfn a dwys.[23]

---

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC1, Race Council Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, SC29, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
[20] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 118
[21] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 5
[22] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[23] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

***Ffigur 1 Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol yng Nghymru a'r DU***

**Medi 2020**
Penderfyniad Swyddfa Gartref y DU i letya ceiswyr lloches yng Ngwersyll Penalun a Baracs Napier yn arwain at brotestiadau lleol

**Mai 2021**
Trais yn ardal Mayhill yn Abertawe yn ystod gwylnos i berson ifanc yn ei arddegau a fu farw. Cafodd ceir eu rhoi ar dân, eiddo ei ddifrodi ac ymosodwyd ar drigolion a swyddogion yr heddlu

**Mawrth 2023**
Aelodau o grŵp asgell dde eithafol yn trefnu protest yn sgil cynlluniau i letya ffoaduriaid o Wcráin mewn llety dros dro ym Mro Morgannwg. Arweiniodd hyn at wrth-brotestiadau gan drigolion lleol a grwpiau gwrth-ffasgaidd

**Mai 2023**
Marwolaeth dau fachgen yn eu harddegau yn arwain at derfysgoedd yn ardal Caerau a Threlái yng Nghaerdydd. Parhaodd yr anhrefn a ddilynodd tan oriau mân y bore, gan adael 31 o swyddogion yr heddlu wedi'u hanafu, eiddo wedi'i ddifrodi a cheir wedi'u rhoi ar dân

**Awst - Hydref 2023**
Cynlluniau Swyddfa Gartref y DU i letya ceiswyr lloches yng Ngwesty Parc y Strade yn Llanelli dros dro yn arwain at wythnosau o brotestiadau a fynychwyd gan yr asgell dde eithafol, trigolion lleol a grwpiau gwrth-ffasgiaeth

**Gorffennaf-Awst 2024**
Llofruddiaeth tair merch ifanc yn Southport yn arwain at aflonyddwch cymunedol a therfysgoedd mewn dros 35 o leoliadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

**Gorffennaf - Awst 2025**
Protestiadau y tu allan i westy a oedd yn lletya pobl o Affganistan a oedd wedi helpu Byddin Prydain ym Mro Morgannwg. Protestiadau pellach i wrthwynebu'r cynlluniau posibl i ddarparu llety i geiswyr lloches yn Sir y Fflint

**Medi 2025**
Protest a drefnwyd gan yr asgell dde eithafol yn denu tua 150,000 o bobl i orymdeithio drwy ganol Llundain. Ar yr un dydd, cynhaliwyd rali 'stopiwch y cychod' yn y Drenewydd, gyda 400 o bobl yn gorymdeithio yn erbyn mewnfudo a 200 o blaid

## Arweinyddiaeth wleidyddol

**34.** Dywedodd y Fonesig Sara Khan fod yr iaith a ddefnyddir gan wleidyddion a'r Llywodraeth, a'r hyn y mae hi'n ei weld fel rhyfeloedd diwylliant, wedi camfanteisio ar densiynau at ddibenion gwleidyddol ar draul cydlyniant cymdeithasol.[24]

**35.** Yn ystod trafodaethau gyda rhanddeiliaid, dadleuwyd bod angen i wleidyddion arwain sgyrsiau anodd gyda chymunedau a mynegi gweledigaeth ddemocrataidd glir.[25] Dywedodd yr Athrawon Abrams a Cantle ei bod yn bwysig bod y llywodraeth yn ysgwyddo rôl gydgysylltu arweiniol.[26]

**36.** Mae'r rhai sydd wedi cael y dasg o gefnogi pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Genedl Noddfa ond yn eiriol dros gyfathrebu mwy rhagweithiol, gyda gwleidyddion yn arwain y gwaith o wrthwynebu **twyllwybodaeth** a **chamwybodaeth**.[27]

**37.** Yng ngoleuni aflonyddu a cham-drin diweddar wedi'i dargedu at sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu cymorth i geiswyr noddfa, galwodd Eleri Williams o'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (BCT) ar aelodau etholedig i ddatgan yn gryf eu cefnogaeth i waith y sector a chondemnio'r casineb y maent yn ei wynebu.[28]

**38.** Hoffai Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru weld:

> "fframwaith gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â strategaethau cyfathrebu a chanllawiau cadarn cysylltiedig ar gyfer darpariaeth leol er mwyn sicrhau aliniad rhwng gwaith lleol a chenedlaethol."[29]

**39.** Mae awdurdodau lleol hefyd yn galw am arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru mewn cyfnodau o aflonyddwch, gan sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu gan gynrychiolwyr etholedig cenedlaethol a lleol.[30]

---

[24] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[25] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[26] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[27] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[28] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig SC29 Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig SC21 Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn

**40.** Yn dilyn y protestiadau a ysgogwyd gan gynnig i letya ceiswyr lloches ym Mharc y Strade, tynnodd y sefydliad cymunedol Llanelli Unites sylw at bryderon am y broses adfer pan nad oedd unrhyw gorff cyhoeddus hysbys yn arwain y gwaith hwn nac yn derbyn cyfrifoldeb am y gwaith sydd i'w wneud, a bod hyn wedi gadael gwagle sy'n aml yn cael ei lenwi gan yr asgell dde eithafol a grwpiau eraill.[31]

**41.** Pwysleisiodd arweinydd Cyngor Sir Fynwy, Mary Ann Brocklesby, yr arweinyddiaeth y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol hynny ei ddangos wrth adeiladu cydlyniant cymunedol, ac adeiladu cydlyniant cymunedol nid o safbwynt adwaith ond o safbwynt cynhwysiant, cydweithio ac atal.[32]

## Strategaeth Cydlyniant 2009

**42.** Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Cydlyniant Cymunedol. Roedd yn nodi mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i gymryd camau i hyrwyddo cydlyniant. Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu pellach yn 2014-16 a 2016-17.

**43.** Mae Hope not Hate, CLlLC ac eraill yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r strategaeth gyda ffocws ar atal, i fyfyrio ar y digwyddiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd ers ei diweddaru ddiwethaf yn 2016-17.[33]

[31] Llanelli Unites - Adroddiad Cynhadledd, Ionawr 2025
[32] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 169
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

***Ffigur 2 Fframweithiau deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru***

**Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus**

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn sefydlu 7 nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys Cymru o gymunedau cydlynus
- **Y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021)** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i leihau'r anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol

**Ceiswyr lloches a mudwyr**

- **Y Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa (2019)** yn nodi cefnogaeth ar gyfer integreiddio ceiswyr lloches. Disodlwyd y cynllun gan Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, gan ganolbwyntio ar 10 egwyddor
- **Y Fframwaith Integreiddio Mudwyr** yn tynnu sylw at ddulliau i gefnogi integreiddio mudwyr

**Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb**

- **Y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: diweddariad (2022 a 2024)** yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â chasineb a gwahaniaethu a chryfhau cydlyniant cymunedol
- **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (2022)** yn nodi camau gweithredu i gryfhau cydraddoldeb a herio gwahaniaethu

**44.** Dadleuodd yr Athro Abrams nad oedd y strategaeth bresennol yn cynnwys dull cydlynol o adeiladu cydlyniant cymdeithasol. Yn hytrach, roedd y pwyslais fel pe bai ar leddfu tensiynau yn hytrach nag adeiladu seilwaith cymdeithasol gwydn.

Pwysleisiodd yr Athro Abrams fod angen dull ataliol er mwyn ymgysylltu â phobl i fynd i'r afael â phryderon cyn iddynt arwain at unrhyw anhrefn cyhoeddus.[34]

**45.** Dywedodd Eleri Williams o BCT fod angen i'r ffocws symud o liniaru neu leddfu'r niwed negyddol sy'n deillio o wahaniaethu a rhagfarn i ddull ataliol o adeiladu seilwaith cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol.[35]

**46.** Dywedodd Dr Cordery-Bruce o CGGC:

> *"fod cyfle i adeiladu'r cysylltiadau allweddol a hanfodol hynny tra bod pethau'n mynd yn dda, ac yna, pan fydd pethau'n mynd o chwith, fod y cymunedau mewn sefyllfa gryfach i ymateb yn gadarnhaol."*[36]

**47.** Galwodd CLlLC ar i Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector gydweithio ar osod amcanion ar gyfer strategaeth genedlaethol neu adnewyddu'r dull presennol i adlewyrchu'r heriau diweddaraf i gydlyniant cymdeithasol. Gwnaethant ddadlau mai awdurdodau lleol a'r trydydd sector sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'u cymunedau i nodi blaenoriaethau lleol penodol.[37]

**48.** Mae CGGC a BCT yn argymell y dylid datblygu polisi cymunedau traws-sector sydd wedi'i gyd-gynhyrchu. Mae BCT wedi cynnal ymgynghoriad cymunedol ar hyn ac wedi esbonio na fyddai strategaeth gymunedol yn cwmpasu cydlyniant cymunedol yn unig:

> "[...] *but a broader sort of range of areas such as community resilience, which looks at your volunteers, your energy and grid capacity, storm recovery, and all of those things that are so important to communities. And also looking at community services and equal access."*[38]

**49.** Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet yn gweld yr angen am strategaeth arall, ond mae'n cydnabod efallai fod angen ei hadnewyddu a gwneud yr hyn sy'n bodoli eisoes yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith fod Llywodraeth

[34] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161
[35] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[36] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 36
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[38] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

Cymru yn gweithio ar ddatblygu polisi cymunedau wedi'i gydgynhyrchu, sydd â'r nod o gefnogi amcan y Prif Weinidog o greu cymunedau ffyniannus a chysylltiedig.[39]

## Y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol

**50.** Y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, a sefydlwyd yn 2009 yw ymyrraeth o bwys Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cydlyniant. Mae'n gweithredu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae wedi'i rhannu'n wyth 'rhanbarth cydlyniant' sy'n darparu fframwaith Cymru gyfan i ymateb i anghenion cymunedau lleol.

***Ffigur 3 Map o ardaloedd y Timau Cydlyniant***




[39] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

**51.** Mae'r Timau Cydlyniant, sydd wedi ehangu gyda cyllid ychwanegol ers 2019, yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys monitro tensiynau cymunedol a meithrin cysylltiadau da. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cydgynhyrchu cynllun gwaith rhanbarthol gyda llywodraeth leol ac yn monitro cynnydd bob chwarter.

**52.** Nododd yr adroddiad 'After the Riots' fod y Rhaglen Gydlyniant yn ddull sy'n cynnig gwersi defnyddiol i Loegr.[40] Yn ei phrofiad o weithio ledled y DU, cyfeiriodd Jacqueline Broadhead o Inclusive Cities yn gadarnhaol at rôl yr arweinwyr cydlyniant cymunedol sy'n darparu arweinyddiaeth, sy'n rhywbeth nad yw'n cael ei efelychu mewn llawer o awdurdodau lleol yn Lloegr.[41]

**53.** Yn ystod ein digwyddiad i randdeiliaid y trydydd sector, daeth nifer o faterion i'r amlwg:

- Mae yna anghysondeb ar draws y rhanbarthau, gyda rhai arweinwyr cydlyniant rhanbarthol yn rhagweithiol iawn ac eraill yn llai rhagweithiol. Roedd rhanbarthau'r Gogledd a'r Canolbarth yn cael eu hystyried yn gadarnhaol.
- Mae diffyg amcanion clir, tryloywder a gwybodaeth am y rhaglen. Hefyd, ni chyhoeddwyd adolygiad annibynnol yn 2021.
- Mae diffyg eglurder ynghylch unrhyw fframwaith monitro, ac a yw'r rhaglen yn gydnaws â chynlluniau cydraddoldeb eraill.[42]

**54.** Yn ôl Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu, er bod timau cydlyniant yn gweithio'n dda yn dilyn gwaith gwersi a ddysgwyd mewn ymateb i brotestiadau yn Llanelli, roedd rhai sefydliadau'n teimlo y gallai'r tîm cydlyniant cymunedol fod wedi cymryd rôl fwy rhagweithiol. Awgrymodd un arweinydd y gallai hyn fod yn gyfle da i ailwerthuso eu rôl bresennol er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd. Dadleuwyd y gallent fod yn fwy strategol, er enghraifft, drwy ddatblygu perthynas agosach â Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru.[43]

**55.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan y Timau Cydlyniant Cymunedol ledled Cymru, gan gynnwys eu rôl wrth

---

[40] British Future, Belong and Together Coalition, After the Riots (Medi 2024)
[41] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 169 . Mae Inclusive Cities yn cefnogi 12 dinas yn y DU, gan gynnwys Caerdydd a Casnewydd, a'u partneriaid lleol wrth gyflawni newid sylweddol yn eu dull o integreiddio newydd-ddyfodiaid i'r ddinas.
[42] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[43] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu – 24 Mawrth 2025

fonitro tensiynau cymunedol, gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector a rhannu arferion da. Un enghraifft a roddwyd oedd y gynhadledd Diverse Together a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2025 gan ranbarthau cydlyniant Cymunedol y Gogledd-orllewin a'r Gogledd-ddwyrain i wrando, dysgu a rhannu arferion da.[44]

**56.** Er na chyhoeddwyd yr Adolygiad Annibynnol o'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn 2021, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yr adroddiad o blaid cynnal llawer o agweddau ar y rhaglen, gan ganmol yr hyblygrwydd i ddelio â materion sy'n dod i'r amlwg a'r strwythur rhanbarthol. Arweiniodd ei argymhellion at rai newidiadau, gan gynnwys cyllid tair blynedd tymor hwy o fis Ebrill 2023.[45] Fodd bynnag, mae'n destun pryder nad yw Llywodraeth Cymru ond wedi ymrwymo i ariannu'r rhaglen hon tan fis Mawrth 2026, er bod angen sefydlogrwydd a chyfeiriad strategol drwy gydol cyfnod yr etholiad a thu hwnt.

**57.** Sefydlodd yr Adolygiad hefyd gynllun grantiau bach, a weinyddir gan bob rhanbarth ac a ddyfernir i sefydliadau'r trydydd sector a phrosiectau partneriaeth wedi'u teilwra i gymunedau lleol. Yn ôl Gwasanaethau Tai Ynys Môn, gall y cynllun gael effaith sylweddol wrth gynorthwyo sefydliadau llawr gwlad i rymuso pobl i gymryd mwy o ran yn eu cymuned eu hunain.[46]

## Mesur cydlyniant cymdeithasol

**58.** Dadleuodd yr Athro Dominic Abrams yr achos dros fesur cydlyniant cymdeithasol:

> *"Being able to measure social cohesion helps gauge how connected communities are. It can identify tensions and threats to cohesion, inform the development and impact of programmes aimed at improving community relations, highlight areas needing improvement and can help direct."*[47]

**59.** Nododd ei waith fylchau yn y mesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd i asesu lefelau cydlyniant cymdeithasol a dadleuodd fod angen iddynt gwmpasu pum elfen cydlyniant: hunaniaeth a pherthyn, economi gymdeithasol, cyfrifoldeb cymdeithasol, cof a thraddodiad diwylliannol, a gofal am y dyfodol.

[44] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[45] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC21, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC26, Yr Athro Dominic Abrams

**60.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at adroddiad blynyddol Llesiant Cymru[48] sydd wedi'i lywio gan Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n darparu cyd-destun ac asesiad o gynnydd tuag at gydlyniant cymunedol yng Nghymru.[49] Nododd hefyd rwydwaith leol ac anffurfiol a ddarperir drwy'r cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol.[50]

**61.** Nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer sut beth fyddai sefyllfa 'dda', yn ôl Inclusive Cities.[51] Dywedodd yr Athrawon Cantle ac Abrams fod angen dull mwy cadarn o fonitro tensiynau a dywedodd yr Arweinwyr Mudo fod bylchau yn y ffordd mae data'n cael ei rannu a dull anghyson o fonitro tensiynau ledled Cymru. Maent yn dadlau y gallai mwy o ddata ar lefel leol lywio dull sydd wedi'i dargedu'n well.[52]

**62.** Pwysleisiodd y Fonesig Sara Khan bwysigrwydd mesur cydlyniant cymdeithasol ond nododd ei fod yn anodd. Fodd bynnag, tynnodd sylw at enghreifftiau o ble mae hyn wedi'i wneud; er enghraifft, mynegai cymdeithasol a ddatblygwyd yn Awstralia.[53] Soniodd hefyd am ymdrechion Cyngor Oldham i fesur cydlyniant yn effeithiol.[54]

Mae Cyngor Oldham wedi datblygu 'mynegai cymunedau ffyniannus' i fesur cryfder cydlyniant hyd at lefel ward; mae'r wybodaeth fanwl hon yn llywio ymatebion priodol pan fydd tensiynau'n codi. Eu rhagdybiaeth oedd mai yn y rhannau o Oldham sydd wedi profi lefelau uchel o amddifadedd ers blynyddoedd lawer fyddai'r cydlyniant isaf. Nid felly y bu yn yr achos hwn. Mae hyn yn dangos bod llawer o ffactorau'n effeithio ar a yw cydlyniant cymdeithasol yn dirywio neu'n cynyddu, ac nid materion economaidd-gymdeithasol yw'r sbardunau bob amser.[55]

[48] Papur Tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
[49] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[50] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[51] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[52] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu – 24 Mawrth 2025
[53] Yr Athro Andrew Markus, Mapping Social Cohesion Tachwedd 2021
[54] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[55] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

## Rôl y sector gwirfoddol

**63.** Mae'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi cydlyniant cymdeithasol. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r sectorau cyhoeddus a phreifat, ond yn aml maent yn fwy gwybodus am anghenion lleol ac mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt.[56] Nododd rhanddeiliaid sawl enghraifft lle mae grwpiau wedi ymyrryd mewn ymateb i ddigwyddiadau er mwyn mynd i'r afael â thensiynau cymunedol:

- ACE – Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (elusen a ddatblygwyd yn y gymuned sy'n cael ei rhedeg gan drigolion Trelái a Chaerau yng Nghaerdydd). Dywed CGGC a sawl rhanddeiliad arall fod yr elusen wedi gwneud cyfraniad hanfodol yn dilyn y terfysg yn Nhrelái yn 2023. Cyfwelodd yr elusen â 1,200 o drigolion, rhoddodd gyfleoedd i drigolion rannu eu sylwadau a chwalu mythau am yr ardal y maent yn byw ynddi a chyfrannodd at y Cynllun Gweithredu Cymunedol. Crëwyd y cynllun ar y cyd â Chyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Ymgymerodd ACE â rôl gymodi amhrisiadwy fel cyfryngwr i drigolion Trelái a Chaerau.[57]

- Gwnaeth Canolfan Phoenix (ymddiriedolaeth ddatblygu yn Abertawe) gyfraniad pwysig o ran hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a gwydnwch cymunedol yn dilyn y terfysg yn ardal Mayhill yn 2021. Fodd bynnag, ni chafodd y sector gwirfoddol ei wahodd i gyfrannu'n ffurfiol at ymateb y sector cyhoeddus i'r terfysg, a ystyriwyd yn gyfle wedi'i golli.[58]

- Gwnaeth Llanelli Unites (grŵp gwirfoddol a sefydlwyd yn sgil protestiadau Gwesty Parc y Strade) gyfraniad hanfodol at ddod â'r gymuned ynghyd yn dilyn y terfysgoedd. Ym mis Tachwedd 2024, llwyddodd ei gynhadledd "Healing the Divide" i annog sefydliadau i weithio gyda'r gymuned. Mae ei adroddiad yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i ailadeiladu ac uno'r gymuned.[59]

**64.** Gall y sector gwirfoddol wneud cyfraniad at fesurau ataliol i adeiladu a chryfhau cydlyniant cymdeithasol. Dywed Inclusive Cities mai grwpiau cymunedol sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r gwaith hwn ac ennyn ymddiriedaeth ar lawr

---

[56] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig SC27, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig SC27, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[59] Llanelli Unites, Adroddiad Cynhadledd, Ionawr 2025

gwlad.[60] Mae CLlLC yn credu mai grwpiau a sefydliadau cymunedol yw'r sylfaen ar gyfer galluogi ymdrechion cydlyniant cymdeithasol.[61]

**65.** Dywedodd Dr Lindsay Cordery-Bruce wrthym:

> *"[…] no plan for social cohesion in Wales* can progress without a thriving, well-resourced and well-connected voluntary and community sector, and I think that provides one of the enablers for how we pull communities together and instil that closeness that we're aiming for … A true partnership between local authorities, the voluntary sector and the communities themselves is one of the tickets out of this."[62]

**66.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tystiolaeth lafar, grwpiau ffocws ac ymweliadau'r Pwyllgor, tynnodd llawer o sefydliadau sylw at brosiectau cymunedol dan arweiniad y sector gwirfoddol sy'n gweithio i ddod â phobl a chymunedau ynghyd, gan geisio mynd i'r afael â materion a thensiynau cymhleth yn aml. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn enghraifft gadarnhaol o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd sefydliadau'n cydweithio â'r gymuned. Ymwelodd y Pwyllgor â Chae Fardre ym Mhentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf, yn i ddysgu am y ffordd y mae'r stad wedi cael ei thrawsnewid.

Mae stad Cae Fardre ym Mhentre'r Eglwys, a adeiladwyd ddiwedd y 1960au, yn cynnwys cymysgedd o dai cymdeithasol, eiddo rhentu preifat a chartrefi sy'n eiddo preifat. Dros amser, daeth troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch cyffuriau cyfundrefnol yn broblem fawr yno. Pan oedd pethau ar eu gwaethaf, cofnododd Heddlu De Cymru 766 o ymweliadau â'r stad o fewn cyfnod o ddeuddeg mis (2022). Roedd trigolion yn ofn cerdded y strydoedd, ataliwyd casgliadau sbwriel oherwydd pryderon ynghylch diogelwch gweithwyr, a difrodwyd cerbydau patrôl yr heddlu, gan gynnwys rhoi un car ar dân.

Roedd cynllun y stad, gyda lonydd cefn cudd a goleuadau gwael, yn darparu amodau i ymddygiad troseddol ffynnu. Roedd hyder y gymuned mewn riportio digwyddiadau i'r heddlu yn isel, gydag ofn dial a diffyg ymddiriedaeth yn yr awdurdodau yn cael eu nodi fel rhesymau cyffredin.

---

[60] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 158
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[62] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 3-6

Yng nghanol 2023, sefydlwyd partneriaeth rhwng Trivallis, Heddlu De Cymru, Cyngor Rhondda Cynon Taf, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chynghorydd lleol. Gyda'i gilydd, gwnaethant lansio'r strategaeth "Hel, Dal, Cryfhau" a gyflwynodd ddull graddol i fynd i'r afael â materion sydd wedi bwrw gwreiddiau dwfn, gan gyfuno gorfodi, dylunio amgylcheddol, ymgysylltu ag ieuenctid a grymuso'r gymuned. Dyma'r camau allweddol:

- gwaith gorfodi amlasiantaeth cydgysylltiedig i fynd i'r afael â gweithgarwch troseddol, adfeddiannau, gwaith uniongyrchol gyda rhieni plant sy'n rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol, dymchwel garejys a rhwystro lonydd cefn a ddefnyddir ar gyfer delio cyffuriau.

***Ffigur 4 Cafodd garejys eu dymchwel i wella diogelwch a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ffotograffau trwy garedigrwydd Trivallis.***





- strategaethau patrôl cymunedol pwrpasol yn cynnwys Swyddogion Tai, Wardeiniaid Cymunedol a Heddlu De Cymru i gynyddu gwelededd a thawelwch meddwl. Gosodwyd camerâu teledu cylch cyfyng. Cyflwynwyd rhaglenni ymyriadau ieuenctid yn y gymuned a sesiynau ymwybyddiaeth o droseddu mewn ysgolion uwchradd lleol.

- Trivallis yn rhoi eiddo i sefydlu hwb cymunedol sy'n cael ei reoli gan wirfoddolwyr hyfforddedig dridiau'r wythnos. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys pantri bwyd a gwasanaeth dosbarthu bwyd i drigolion ynysig, 'Toastie Tuesday' a 'Chip Butter Friday'; cyngor ariannol, sesiynau galw heibio iechyd meddwl, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, dosbarthiadau coginio; sesiynau cyfnewid dillad, garddio cymunedol, teithiau am ddim i'r teulu; sesiynau i ddynion. Sefydlodd gwirfoddolwyr yr Hwb

gyfansoddiad, gan osod y sylfaen ar gyfer statws elusennol ffurfiol i gynnal cyllid yn y dyfodol.

Mae adborth gan wirfoddolwyr yn adlewyrchu newid cadarnhaol:

*"Rwy'n gadael i 'mhlant i fynd allan i chwarae nawr."*

*"Mae'r hwb yn rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato."*[63]

**67.** Mynegodd llawer o randdeiliaid bryder ynghylch y cyllid sydd ar gael i gefnogi'r sector gwirfoddol. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith bod £25.8 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer seilwaith y trydydd sector, sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol, o 2025 i 2028. Mae cynnydd o dri y cant hefyd ar gyfer sefydliadau gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i gylchoedd ariannu tair blynedd. Cefnogir hyn gan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu'r trydydd sector.[64]

## Ein barn ni

Clywsom dystiolaeth bryderus, sy'n awgrymu bod tensiynau ar gynnydd; a gallai'r rhain arwain at aflonyddwch sifil eang heb weithredu i fynd i'r afael â nhw.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhoi ciplun ar gydlyniant cymunedol ond nid yw'n darparu'r wybodaeth fanwl sy'n ein galluogi i fesur cydlyniant a'r hyn sy'n digwydd ar lefel gymunedol.

Gwyddom fod gwaith da yn cael ei wneud mewn cymunedau ledled Cymru. Mae enghraifft Cae Fardre yn dangos sut y gall dull rhagweithiol a chydgysylltiedig drawsnewid cymunedau. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am ymrwymiad ac arweinyddiaeth sefydlog.

Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi datblygu sylfeini cadarn i adeiladu a chryfhau cydlyniant cymdeithasol. Mae'r timau cydlyniant yn gwneud cyfraniad hanfodol a phwysig at wella gallu a datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â heriau ac adeiladu cydlyniant ar lefel leol. Nid yw'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod angen ailwampio'r dull yn llwyr, ond mae'n awgrymu diffyg goruchwyliaeth strategol ar

[63] Ymweliad Pwyllgor â Chae Fardre
[64] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 126 & 127

lefel genedlaethol. Mae hyn yn allweddol i fynd i'r afael yn effeithiol â'r problemau uniongyrchol a'r heriau hirdymor y mae cymunedau'n eu hwynebu.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol i lunio set o gamau gweithredu i'w cyflawni ar unwaith, yn y tymor canolig ac yn y tymor hir. Dylai'r grŵp ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o lywodraeth leol, yr heddlu, timau cydlyniant, y trydydd sector, y Bartneriaeth Mewnfudo Strategol a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i ddatblygu'r camau gweithredu hynny. Rydym yn awgrymu y dylai'r gwaith hwn adlewyrchu'r dull gweithredu ar unwaith a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r argyfwng costau byw.[65] Mae'n anodd gorbwysleisio brys y gwaith hwn ac rydym yn disgwyl i'r llywodraeth roi'r argymhelliad hwn ar waith yn ddi-oed. Dylai'r Grŵp Arbenigol fod wedi'i sefydlu erbyn canol mis Tachwedd a dylai gyflwyno adroddiad cyn diwedd y flwyddyn. Dylai gwaith y Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol gynnwys:

- Datblygu dogfen egwyddorion arweiniol cenedlaethol cyffredinol ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, yn debyg i '10 egwyddor' Cenedl Noddfa.
- Mabwysiadu fframwaith ar gyfer mesur cydlyniant cymdeithasol a monitro gwaith y rhaglen cydlyniant cymunedol, gan ystyried gwaith Cyngor Oldham.
- Adolygu cyllid ar gyfer y timau cydlyniant, gan gytuno ar yr hyn sydd ei angen y tu hwnt i fis Mawrth 2026.
- Galluogi cyfleoedd newydd a gwell ar gyfer rhannu arferion gorau yn genedlaethol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Gallai hyn gynnwys datblygu canllaw arferion gorau.

[65] Llywodraeth Cymru, Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw, (2023)

# 3. Bygythiadau sylfaenol i gydlyniant cymdeithasol

Mae heriau strwythurol hirdymor yn ogystal â materion cyfredol yn bygwth cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae llawer o gymunedau yng Nghymru yn ymgodymu ag anghydraddoldeb economaidd a thlodi. Mae dirywiad mewn cyfalaf cymdeithasol ac iechyd democrataidd, ynghyd â lleihad mewn gwasanaethau ac adnoddau lleol, yn gadael ein cymunedau'n agored i weithredwyr malaen sy'n achub mantais arnynt er mwyn hau hadau rhaniadau. Gall tensiynau ferwi drosodd, yn enwedig lle mae adnoddau'n brin. O'u chwyddo gan twyllwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a gweithgarwch yr asgell dde eithafol yng Nghymru, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau cydlyniant ein cymunedau.

## Anghydraddoldeb economaidd a thlodi

**68.** Nododd nifer o randdeiliaid y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb economaidd a chwalfa gymdeithasol. Mae Race Council Cymru a Ted Cantle yn cydnabod bod anghydraddoldeb economaidd yn creu amgylchedd lle gall bygythiadau i gydlyniant cymdeithasol ffynnu a bwrw gwreiddiau. Gall anghydraddoldeb cyfoeth, tlodi a symudedd cymdeithasol isel fwydo dicter a thensiynau cymunedol.[66]

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig SC01 Race Council Cymru; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180

**69.** Mae Amnest Rhyngwladol yn tynnu sylw at ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021-22, gan honni ei fod yn nodi tuedd tuag at fwy o gydlyniant cymunedol wrth i amddifadedd yn yr ardal leihau.[67]

**70.** Wrth drafod y rhesymau am derfysgoedd Trelái yng Nghaerdydd yn 2023, cyfeiriodd Arweinydd Cyngor Sir Fynwy, Mary Ann Brocklesby, at ddegawdau o dlodi dros sawl cenhedlaeth sydd wedi hen ymwreiddio.[68]

**71.** Mae Hope not Hate ac eraill yn datgan bod ansicrwydd economaidd a chanfyddiadau bod adnoddau prin yn cael eu dyrannu'n annheg yn bygwth cydlyniant cymunedol.[69]

**72.** Tynnodd sawl sefydliad, gan gynnwys Race Council Cymru a Sefydliad Bevan, sylw at bwysigrwydd lleihau effaith tlodi ar unigolion a theuluoedd mudol. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru yn nodi'n glir bod integreiddio'n cael ei rwystro pan nad yw anghenion sylfaenol ceiswyr noddfa, fel gofal iechyd, bwyd, tai, cymorth iechyd meddwl, cymorth cyfreithiol, trafnidiaeth a mynediad digidol, yn cael eu diwallu.[70]

**73.** Tynnodd trafodaeth gyda rhanddeiliaid y trydydd sector sylw at y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r trawma a'r heriau a brofir gan fudwyr, fel y rhai Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF), gan gynnwys diffyg mynediad at fudd-daliadau neu brydau ysgol am ddim i blant ysgol uwchradd.[71]

**74.** Dadleuodd y Fonesig Sara Khan nad yw'r berthynas rhwng materion economaidd-gymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol yn un syml, ac nad oes consensws pendant o fewn llenyddiaeth academaidd. Roedd hyn yn amlwg yng ngwaith Oldham i ddatblygu'r mynegai cymunedau ffyniannus.[72]

**75.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol drwy'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol sydd, ers 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ystyried effaith eu penderfyniadau ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn ddiweddar, archwiliodd y Comisiwn Cydraddoldeb

---

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig SC19, Amnest Rhyngwladol
[68] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 170
[69] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 94
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig SC24, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru
[71] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[72] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

a Hawliau Dynol brofiadau'r rhai y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yng Nghymru a'r Alban. Canfuwyd bod dealltwriaeth eang o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ond gwahaniaethau mewn profiadau o'i rhoi ar waith ymhlith y rhai y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt, sy'n dweud bod angen mwy o gymorth arnynt, gan gynnwys hyfforddiant, canllawiau a rhannu gwybodaeth.[73]

**76.** Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y gwaith o gyflwyno ei rhaglenni wedi'u targedu a rhaglenni cyffredinol i leddfu pwysau ariannol a helpu i gynyddu incwm, drwy fentrau fel Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, y Grant Hanfodion Ysgol, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant.[74]

## Ein barn ni

Mae adroddiad diweddar Tlodi yng Nghymru 2025 yn cadarnhau bod tlodi yng Nghymru yn dyfnhau.[75] Roedd y rhan fwyaf o'n tystiolaeth yn pwysleisio effeithiau niweidiol tlodi ac anghydraddoldeb ar gydlyniant cymdeithasol; dywedodd eraill wrthym mai dim ond un o blith amrywiaeth o ffactorau ydoedd.

Rydym wedi codi pryderon yn rheolaidd ynghylch tlodi plant, y wasgfa ar safonau byw a achosir gan y cynnydd mewn costau byw ac effaith Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

Er nad oes gan Lywodraeth Cymru rai o'r pwerau i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru, rhaid iddi sicrhau ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno rhaglenni sy'n lliniaru tlodi yn effeithiol ac yn lleihau'r pwysau ariannol sy'n wynebu cymunedau.

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd am effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ond cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet ati fel rhan o'i strategaeth i fynd i'r afael â chydlyniant cymdeithasol.

**Casgliad 2.** Yn anffodus, mae'r dadansoddiad diweddaraf o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i gefnogi'r broses o roi'r ddyletswydd ar waith. O ystyried amlygrwydd y ddyletswydd yn nhystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet, rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar dystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau

[73] Llywodraeth Cymru Papur Tystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025
[74] Llywodraeth Cymru Papur Tystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025
[75] Sefydliad Joseph Rowntree (2025) Tlodi yng Nghymru 2025

Dynol a diweddaru'r Pwyllgor am y camau y bydd yn eu cymryd yn dilyn ei hadolygiad.

## Heriau sy'n wynebu cymunedau lleol

**77.** Mae llawer o randdeiliaid eisiau gweld mwy o fuddsoddiad i gefnogi a datblygu cydlyniant cymdeithasol a gwydnwch o fewn cymunedau lleol. Yng nghyd-destun toriadau i gyllid awdurdodau lleol, mae CLlLC yn galw am ragor o adnoddau i alluogi dulliau wedi'u harwain gan awdurdodau lleol a all dargedu cymunedau lleol penodol, a ffocws ar atal yn seiliedig ar wybodaeth leol.[76] Tynnodd y trydydd sector sylw at y ffaith bod datblygu a chefnogi cydlyniant cymunedol yn gofyn am fuddsoddiad amser ac adnoddau i feithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau, rhwydweithiau a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gymuned.[77]

**78.** Mae'r ymchwil gan Brifysgol South Bank Llundain, a ariannwyd gan Nuffield, yn nodi pwysigrwydd lleoedd a chyfleoedd i feithrin cydlyniant cymdeithasol, gan gynnwys lleoedd lle gall pobl ddod at ei gilydd i gysylltu a datrys problemau wrth ddatblygu cysylltedd cymunedol. Maent yn mynegi pryder bod y ddarpariaeth o fannau cyfarfod yn y gymuned yn lleihau'n gyflym ar hyn o bryd.[78]

### Partneriaeth Parc Caia

Ymwelodd y Pwyllgor â Pharc Caia yn Wrecsam, un o'r stadau tai mwyaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 12,000 o bobl / 3,000 o aelwydydd. Mae Parc Caia wedi profi tensiynau yn y gorffennol, yn fwyaf arwyddocaol y terfysgoedd a ddigwyddodd yn 2003 yn dilyn gwrthdaro rhwng trigolion lleol a ffoaduriaid Cwrdaidd o Irac. Gwnaed llawer o waith i ddod â'r gymuned ynghyd, gan gynnwys hyfforddiant cydraddoldeb.

Sefydlwyd Partneriaeth Parc Caia Cyf (CPP) gan drigolion ym 1998. Mae'n fenter gymdeithasol dan arweiniad y gymuned ac yn elusen gofrestredig. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi 60 o bobl, llawer ohonynt wedi'u magu yn y gymuned leol ac yn byw yno. Roedd rhai o'r staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau pan oeddent yn ifanc, gan ennill profiad o wirfoddoli a chael eu cefnogi i ennill cymwysterau perthnasol ac maent bellach yn darparu gwasanaethau a chymorth i'w cymuned eu hunain. Mae'r model datblygu o'r gwaelod i fyny hwn yn hanfodol

[76] Tystiolaeth ysgrifenedig SC32, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
[77] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig SC16 Sefydliad Nuffield

i lwyddiant CPP; mae staff yn deall anawsterau eu cymuned ac mae pobl yn ymddiried yn eu sefydliad lleol ac yn ei gefnogi.

Mae'r bartneriaeth yn datblygu'r gymuned mewn modd cyfannol. Mae'n gweithio gyda'r gymuned a sefydliadau partner i nodi anghenion a darparu gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau yn seiliedig ar eu hadborth.

Mae hwb CPP yn darparu amrywiaeth o glybiau i'r hen a'r ifanc, gan gynnwys coginio, magu plant, garddio, grŵp iechyd i ddynion, clybiau ieuenctid, cyngor tai, pryd ar glud i bobl hŷn a chlwb cinio i'r henoed. Mae hefyd yn trefnu digwyddiadau i ddod â phobl at ei gilydd fel cymuned.

Mae CPP hefyd yn rhedeg 3 meithrinfa gofal plant sy'n darparu darpariaeth Dechrau'n Deg a gofal dydd i 80-100 o blant a chanolfan gofal dydd dementia ac yn pwysleisio manteision cymysgu'r cenedlaethau.

Mae darpariaeth CCP ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys Mentora i blant a phobl ifanc 8–18 oed, a llwybrau cynnydd ar gyfer pobl ifanc 16–24 oed nad ydynt mewn addysg neu gyflogaeth. Maent yn pwysleisio y gall clwb ieuenctid fod yn achubiaeth i rai pobl ifanc: drwy ddarparu bwyd, cymorth a chyfeirio at wasanaethau, i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio cyffuriau. Ar ôl gwneud gwaith ar gydraddoldeb gyda phobl ifanc, mae rhai pobl ifanc ethnig leiafrifol bellach yn teimlo bod croeso iddynt.

Adborth gan Fentor Cymorth i Rieni:

"Roedd yma'n lle anodd i dyfu i fyny, rydw i eisiau gwneud yn siŵr nad oes rhaid i bobl ifanc sy'n tyfu i fyny yma heddiw wynebu'r un anawsterau."[79]

## Meithrin mannau cymunedol

**79.** Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae hefyd yn golygu byw mewn ardaloedd sydd heb seilwaith cymunedol.[80]

### Indecs Asedau Cymunedol Cymru ac Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru

Comisiynodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ymchwil i ddeall y berthynas rhwng amddifadedd a seilwaith cymunedol yng Nghymru. Canfu gysylltiad cryf a chyson rhwng amddifadedd a lefelau isel o seilwaith cymunedol.

[79] Ymweliad y Pwyllgor â Pharc Caia
[80] Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, 'Indecs Asedau Cymunedol Cymru' (Medi 2023)

Mae ardaloedd a nodwyd fel "Ardaloedd Llai Gwydn" (LRAs) yn wynebu heriau ychwanegol anfantais economaidd-gymdeithasol, cysylltedd gwael ac asedau dinesig cyfyngedig.

Datblygwyd dau fynegai newydd:

- Indecs Asedau Cymunedol Cymru (WCAI) – yn mesur asedau dinesig, cysylltedd ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Indecs Cydnerthedd Cymunedol Cymru (WCRI) – yn cyfuno WCAI â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i asesu cydnerthedd cyffredinol.

Mae'r ymchwil hon yn dangos bod cymunedau sydd â llai o leoedd i gyfarfod, cymuned sy'n llai ymgysylltiedig a gweithgar a chysylltedd gwaeth â'r economi ehangach yn profi canlyniadau cymdeithasol ac economaidd llawer gwaeth o'i gymharu â chymunedau sydd â mwy o'r asedau hyn. Nodwyd 102 o ardaloedd fel Ardaloedd Llai Gwydn (LRAs), sy'n dioddef o amddifadedd uchel a seilwaith gwael. Mae Gurnos, Trefechan a Phontsticill ym Merthyr Tudful yn safle rhif 1 yn y ddau fynegai.

Mae'n werth nodi bod 5 ardal sydd wedi'u rhestru ymhlith y 20% lleiaf difreintiedig ar MALlC ymhlith y 20% mwyaf difreintiedig o ran seilwaith cymunedol: mae'r rhain yn cynnwys Llanilltud Fawr a'r Rhws a'r Maes Awyr ym Mro Morganwg; mae'r ddwy ardal wedi gweld protestiadau yn erbyn lletya ceiswyr noddfa.[81]

**80.** Dywedodd y Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol:

> *"At a time when publicly-owned community assets are at risk of being sold off, and without the same level of rights for communities with regards to privately-owned assets in Wales as in Scotland, it is more important than ever that there is a step change in Wales that sees communities empowered to take on vital public assets to use them as key, inclusive community spaces that foster community cohesion."*[82]

**81.** Mae dull seiliedig ar leoedd yn allweddol i feithrin rhyngweithiadau ystyrlon rhwng ceiswyr noddfa a chymunedau sy'n lletya, yn ôl Oasis sy'n cydweithio â sefydliadau lleol i ddod â chymunedau ynghyd drwy chwaraeon, y celfyddydau a

[81] Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, 'Indecs Asedau Cymunedol Cymru' (Medi 2023)
[82] Tystiolaeth Ysgrifenedig SC18, Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol

mentrau diwylliannol.[83] Mae Hope not Hate yn cefnogi'r farn bod creu hunaniaeth gymunedol yn beth anodd iawn i'w wneud heb ei hangori i le.[84]

**82.** Yn ystod ymweliad â Gerddi'r Rheilffordd yng Nghaerdydd, gwelodd y Pwyllgor bwysigrwydd dull seiliedig ar leoedd, sy'n cynnig cyfleoedd i bobl o wahanol grwpiau gyfarfod. Mae'r gofod yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys grŵp Good Sheds wythnosol lle gall pobl "siarad, rhannu a chreu pethau". Mae partneriaeth gadarnhaol wedi'i datblygu rhwng Gerddi'r Rheilffordd ac Oasis, grŵp cymorth pwysig i geiswyr lloches sydd wedi'i leoli gerllaw. Mae Oasis a Gerddi'r Rheilffordd yn cydweithio i blannu gardd noddfa, sy'n fan diogel i gyfarfod a gwella dealltwriaeth o'r heriau mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu hwynebu.[85]

***Ffigur 5 The Good Shed, Gerddi'r Rheilffordd***



**83.** Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Sefydliad Materion Cymreig ac eraill sy'n pryderu am effaith y gostyngiad yn nifer y mannau cyhoeddus sydd ar gael ar gydlyniant cymdeithasol yn eirioli dros gyflwyno hawl y gymuned i brynu.[86]

**84.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Comisiwn Asedau Cymunedol yn adrodd yn ystod yr hydref 2025. Datgelodd fod canllaw arferion gorau ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol eisoes wedi'i ddatblygu. Cyfeiriodd at enghraifft

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig SC05 Oasis
[84] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
[85] 'Ymweliad y Pwyllgor â Gerddi'r Rheilffordd
[86] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

gadarnhaol Cymunedoli Cyf yng Ngwynedd yn prynu adeiladau i gefnogi mentrau cymunedol a'r economi leol.[87]

## Ein barn ni

Mae'r dirywiad cyson yn nifer y lleoedd a'r mannau sydd ar gael i bobl gyfarfod yn peri pryder. Clywsom dystiolaeth glir am werth pobl yn gallu dod at ei gilydd o fewn cymunedau, sy'n meithrin teimladau o berthyn ac undod. Mae mannau cymunedol yn hanfodol ar gyfer amrywiaeth o anghenion, megis cynnal grwpiau chwarae, banciau bwyd, canolfannau clyd neu wersi iaith. Dywedodd sefydliadau ffydd, gan gynnwys Cytûn a'r Good Faith Partnership, fod mannau cymunedol yn darparu ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi cymunedau lleol.

Dros y degawd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi wynebu toriadau sylweddol i gyllid sydd wedi arwain at golli'r asedau cymunedol gwerthfawr hyn. Mae cymunedau wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn eu hunain, ond maent yn wynebu rhwystrau wrth wneud hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall cymunedau ddefnyddio proses symlach i gymryd rheolaeth dros gyfleusterau cymunedol allweddol.

Mae gan rannau eraill o'r DU hawliau – mae Hawl y Gymuned i Brynu yn yr Alban a Hawl y Gymuned i Gynnig yn Lloegr. Mae'r diffyg cynnydd yng Nghymru yn destun siom i ni. Mae'n hanfodol cryfhau a chefnogi ein cymunedau ledled Cymru i allu caffael asedau lleol i'w diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn gyflym a chymryd camau i amddiffyn mannau cymunedol. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno Hawl y Gymuned i Brynu a dylid ystyried hyn ynghyd ag adroddiad y Comisiwn Asedau Cymunedol a ddisgwylir yn yr hydref. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau nesaf erbyn diwedd 2025.

## Democratiaeth ar brawf

**85.** Mynegodd y Fonesig Sara Khan bryderon am lefelau cynyddol o ddadrithiad â democratiaeth a diffyg ymddiriedaeth yn ein sefydliadau democrataidd. Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd ail adroddiad a ddaeth i'r casgliad bod lleihau mewn

[87] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

gwydnwch cymdeithasol a democrataidd yn cyfrannu at amgylchedd caniataol y gall eithafwyr achub mantais arno.[88]

**86.** Roedd yr Athro Cantle yn cytuno. Dywedodd, er bod lefel uwch o ymddiriedaeth mewn gwleidyddion yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, mae'n is nag ydyw yn yr Alban, a rhybuddiodd rhag gorffwys ar ein rhwyfau.[89] Mae mynegai Life in the UK 2004: Wales yn dangos bod iechyd democratiaeth yng Nghymru wedi bod yn dirywio ers 2021.[90]

**87.** Cydnabu arbenigwyr ar iechyd democrataidd y cysylltiadau rhwng cydlyniant cymdeithasol ac iechyd democrataidd, gan nodi bod Cymru'n cael ei gadael ar ôl o ran dulliau democrataidd cydgynghorol.[91] Tynnodd yr Athro Ryan sylw at enghreifftiau ym Mrasil a British Columbia lle mae dulliau arloesol wedi cael eu defnyddio.[92]

**88.** Ym mis Ionawr 2025, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth i archwilio ffyrdd arloesol o wella dealltwriaeth o ddemocratiaeth. Dywedodd Joe Rossiter fod Cymru mewn sefyllfa i fod ar flaen y gad o ran cyflwyno rhai o'r dulliau hyn. Ond yng nghyd-destun adnoddau ariannol cyfyngedig, yn rhy aml nid oes gan lywodraeth leol y gallu i gyflwyno dulliau democrataidd cydgynghorol. Er bod ymdrechion cadarnhaol i wella'r diffyg democrataidd, megis ariannu grant ymgysylltu â democratiaeth o £400,000, tynnodd Joe Rossiter sylw at y diffyg cyfathrebu am ganlyniadau'r gwaith hwn.[93] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen waith y Grŵp Cynghori ar Arloesli Democratiaeth ar 30 Medi 2025.[94]

**89.** Yn ôl Dr Anwen Elias, er y ffaith bod cynnwys yn un o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ddeng mlynedd wedyn rydym ar ei hôl hi o ran sut rydym yn cynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau.[95] Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn beirniadu'r

---

[88] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 5-7
[89] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 118-20
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig SC07 Carnegie UK
[91] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 20
[92] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[93] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 21 a 36
Llywodraeth Cymru, Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth: rhaglen waith, Medi 2025
[95] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 26 a 69

diffyg cynnydd o ran cynnwys pobl; ategir hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol.[96] Mae Carnegie UK yn adleisio'r angen i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen i ymwreiddio'r dull hwn yn effeithiol.[97]

**90.** Mae Dr Elias yn datgan mai un o'r heriau mwyaf yw cael gwleidyddion a gweision sifil "*i ddeall bod y dulliau gwahanol yma o wneud gwleidyddiaeth—so, datblygu polisi o weithredu democratiaeth—yn gallu dod ag added value nid jest i'r outcomes polisi ond added value ehangach cymdeithasol o ran dealltwriaeth pobl am ddemocratiaeth, eu hymwneud nhw â'r broses ddemocrataidd, a'r ffordd maen nhw'n gweld eu rôl nhw fel dinesydd mewn cymdeithas.*"[98].

**91.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet yr angen i feithrin ymddiriedaeth mewn democratiaeth a chyfeiriodd at enghreifftiau diweddar o gamau gweithredu, gan gynnwys ariannu'r Prosiect Gwleidyddiaeth mewn ysgolion, 'y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig' ar gyfer pobl anabl a mentrau a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.[99]

**92.** Darparodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth am y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth a ddyrannodd £657,093.85 i gefnogi ymgysylltu â democratiaeth, a chefnogi 22 o sefydliadau i gyflawni 27 prosiect ledled Cymru, gan gyrraedd ystod amrywiol o bobl a chymunedau.[100]

## Ein barn ni

Rydym wedi clywed sut y mae diffyg dylanwad neu effaith yn ffactor hollbwysig gyda chanlyniadau andwyol i gydlyniant cymdeithasol. Dylai'r dirywiad yn iechyd democratiaeth beri pryder i bob un ohonom. Mae sicrhau bod gan bawb fuddiant yn yr ardal y maent yn byw ynddi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n dda mewn prosesau gwneud penderfyniadau yn hanfodol ar gyfer meithrin cymdeithas gydlynus (yn ogystal â chanlyniadau gwell).

---

[96] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig SC07 Carnegie UK
[98] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
[99] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 113
[100] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai 08 Mai 2025

Er gwaethaf uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn siomedig nad yw cyrff cyhoeddus, o'r pum ffordd o weithio, wedi gwneud llawer o gynnydd o ran cynnwys pobl.

**Casgliad 3.** Mae'r heriau cynyddol sy'n gysylltiedig â gostyngiad mewn ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a sefydliadau yn golygu bod angen cymryd camau gweithredu ar unwaith i hybu iechyd democrataidd yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i gynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau drwy ddulliau democrataidd cydgynghorol. Dylai barhau â'i gwaith gydag arbenigwyr ar iechyd democrataidd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod gan y rhai sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus y sgiliau a'r adnoddau i gefnogi cyfranogiad a chynnwys effeithiol.

## Y cyfryngau cymdeithasol, camwybodaeth a thwyllwybodaeth

**93.** Cododd y Fonesig Sara Khan, EYST ac eraill bryderon am y cynnydd mewn twyllwybodaeth, camwybodaeth a pha mor hawdd y mae damcaniaethau cynllwyn yn lledaenu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ychwanegodd y Fonesig Sara ei bod yn anodd iawn herio lledaeniad camwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyfeiriodd at sut y lledaenodd twyllwybodaeth am yr ymosodwr yn dilyn llofruddiaethau Southport, gan honni ei fod yn fewnfudwr anghyfreithlon ac yn Fwslim, er nad oedd y naill na'r llall o'r honiadau hyn yn wir.[101]

**94.** Esboniodd yr Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu sut y maent yn cael trafferth delio â mwy a mwy o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, Aflonyddu sy'n Cyfyngu ar Ryddid, a dadleuon cenedlaethol a rhyngwladol cynhennus ynghylch mudo sy'n cael effaith ar eu gwaith ar lawr gwlad.[102]

**95.** Mae'r don o dwyllwybodaeth a chamwybodaeth wedi cael effaith sylweddol ar y sector gwirfoddol. Cafodd yr ymosodiadau di-baid ar Gyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) ar ôl i fideo o blant ysgol yn trafod gwerthoedd Cenedl Noddfa gael ei ystumio i annog casineb ei godi gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru, Oasis a rhanddeiliaid y trydydd sector. Oherwydd y cam-drin a'r bygythiadau ar-lein yn sgil hyn, bu'n rhaid i WRC gau ei ddrysau am dridiau i ddiogelu staff, ymddiriedolwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi.[103]

[101] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[102] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu – 24 Mawrth 2025
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig SC24 Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru

**96.** Dywedodd Sefydliad Bevan fod hinsawdd o ofn yn parhau o amgylch gweithgareddau i gefnogi mudwyr neu ymdrechion i newid polisïau i hyrwyddo hawliau neu gynhwysiant.[104] Er ei fod wedi'i gyfeirio at y rhai sy'n cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gwnaeth y drafodaeth gyda rhanddeiliaid y trydydd sector dynnu sylw at y ffaith bod grwpiau eraill megis y gymuned drawsryweddol yn cael eu targedu fwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasol.

**97.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, mewn ymateb i fwyfwy o rethreg gynhennus ar-lein, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i bartneriaid ynghylch sut i ddelio â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys rhannu pecynnau cymorth RESIST 2.0 a Wall of Beliefs a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU. Mae hefyd wedi datblygu pecyn cymorth camwybodaeth ar gyfer grwpiau cymunedol a Cofnod Cywir, sef adnodd agored i wirio ffeithiau ac egluro honiadau a wneir am bolisïau Llywodraeth Cymru.[105] Mae gwybodaeth ac adnoddau i staff ysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd drwy blatfform addysg Hwb hefyd.

**98.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrechion i ymgysylltu â phlatfformau cyfryngau cymdeithasol a gweithio gydag Ofcom. Fodd bynnag, nid yw pwerau ynghylch y cyfryngau cymdeithasol wedi'u datganoli a dim ond ym mis Mawrth 2025 y dechreuodd pwerau gorfodi Deddf Diogelwch Ar-lein 2023.

**99.** Mae'r trydydd sector yn galw am weithredu ar unwaith yng Nghymru i fynd i'r afael â rhethreg atgas, twyllwybodaeth a chamwybodaeth. Mae Tai Pawb yn pwysleisio y dylid rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.[106] Dywedodd Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru fod angen rhagor o gymorth ac ymgysylltu er mwyn ymwreiddio strategaethau cyfryngau a chyfathrebu.[107] Yn ystod ei gwaith gydag awdurdodau lleol ledled Lloegr, dywedodd y Fonesig Sara Khan fod y neges yn gyson:

> *"We lack the capability, we lack the resources, and we lack the expertise to understand how to challenge these threats to social cohesion, whether it's extremism, conspiracy theories, disinformation.*

[104] Tystiolaeth ysgrifenedig.SC22, Sefydliad Bevan
[105] Llywodraeth Cymru, Cofnod Cywir
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig SC20 Tai Pawb
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig SC31 Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru

> *The third sector stakeholder group were clear that this cannot be left to third sector and grass roots organisations."*[108]

**100.** Wrth groesawu adnodd Llywodraeth Cymru, Cofnod Cywir, rhybuddiodd Dr Cordery-Bruce rhag dibynnu ar y dull hwn. Dadleuodd na fydd pobl sy'n lledaenu naratif ffug yn ei ystyried yn wrth-ffynhonnell gredadwy, a bod angen dod o hyd i'r bobl mewn cymunedau y byddant yn gwrando arnynt ac ymateb i gamwybodaeth wrth iddi ymddangos.[109] Yn ôl Cyngor Oldham, mae'n hanfodol ymgysylltu â chymunedau a gweithio gyda lleisiau dibynadwy i helpu i ledaenu'r wybodaeth gywir, a dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r naratif ffug yn cael ei ledaenu.[110]

**101.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda HateLab, hwb byd-eang ar gyfer data a mewnwelediad i iaith casineb a throseddau casineb.[111] Mae Cyfarwyddwr HateLab, yr Athro Matt Williams, yn cyfeirio at astudiaethau sy'n dangos cysylltiad rhwng iaith casineb ar-lein a throseddau casineb all-lein, gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn gweithredu fel 'drych' a 'sbardun' ar gyfer ymddygiad all-lein. Yn 2020, aeth HateLab ati, ar y cyd â phartneriaid academaidd a pholisi gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dangosfwrdd sy'n helpu i olrhain ac ymateb i gamwybodaeth mewn amser real. Cafodd ei dreialu yn Llywodraeth Cymru yn 2020-21. Mae'r Athro Williams yn nodi y bydd Dangosfwrdd HateLab yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fonitro tensiynau cymunedol ac y bydd y ffynhonnell wybodaeth newydd hon yn caniatáu i gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol gael gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol am densiynau cymunedol sy'n dod i'r amlwg.[112]

## Ein barn ni

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi achosi llif o newyddion ffug, damcaniaethau cynllwyn a chamwybodaeth. Gan chwarae ar ofnau, rhwystredigaethau a rhagfarnau, mae'r duedd gynyddol hon yn bygwth tanseilio sylfeini ein democratiaeth. Yn Llanelli, Southport ac mewn mannau eraill, rydym eisoes wedi gweld yr effaith negyddol y gall hyn ei chael ar gydlyniant cymdeithasol. Rydym

---

[108] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 44
[109] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[110] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 228
[111] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 52
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig SC33 HateLab

yn pryderu bod yr ymateb hyd yma wedi methu â chymryd y bygythiadau hyn o ddifrif. Ni fydd yn hawdd ymateb i'r her gynyddol hon ac mae angen dull cliriach, cydgysylltiedig a strategol wedi'i ategu gan adnoddau digonol.

Roedd yr enghraifft o'r cam-drin ar-lein di-baid yn targedu Cyngor Ffoaduriaid Cymru, ei staff a'i ymddiriedolwyr, yn ogystal â cheiswyr lloches a ffoaduriaid ym mis Ionawr 2025, yn arswydus. Clywsom nad digwyddiad ynysig oedd hwn a bod casineb ar-lein yn cynyddu, gydag ideoleg asgell dde eithafol ar led yn eang.

Er nad yw rheoleiddio'r cyfryngau a phlatfformau ar-lein wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig a gall liniaru'r effaith drwy weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, y trydydd sector a chymunedau.

Rydym yn croesawu datblygiad adnoddau fel y pecyn cymorth drafft ar gyfer arweinwyr cymunedol a Cofnod Cywir, ond nid yw'n glir pa effaith mae'r rhain yn ei chael a sut y mae'r rhain yn cael eu rhannu a'u hymwreiddio. Mae angen i sefydliadau a'r trydydd sector allu cael mynediad at gyngor ac arweiniad arbenigol ar gyfer datblygu naratifau cadarnhaol ac amgen i hyrwyddo cydnerthedd yn eu cymuned.

Mae gweithio'n rhagweithiol i alluogi cymunedau i ymateb yn effeithiol yn hanfodol. Clywsom yn glir fod y diffyg gwybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd yn Llanelli wedi creu gwagle a gafodd ei lenwi gan leisiau aflonyddgar a niweidiol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth ymdrin â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Dylai hyn gynnwys:

- gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, timau cydlyniant cymunedol a'r trydydd sector, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael a chydgysylltu negeseuon cyson.
- comisiynu Dangosfwrdd HateLab neu wasanaeth monitro tebyg i dynnu sylw at fflachbwyntiau neu bryderon sy'n gofyn am gamau gweithredu neu adnoddau.
- archwilio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Oldham i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

## Agweddau at geiswyr noddfa a mudwyr

**102.** Mae pryder sylweddol ynghylch agweddau tuag at y rhai sy'n ceisio noddfa yng Nghymru a mudwyr yn gyffredinol. Mae Hope not Hate yn esbonio bod

lefelau diogelwch neu anniogelwch ariannol yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar agweddau at fewnfudo ac amlddiwylliannaeth.[113]

**103.** Yn ôl yr Athro Cantle, heb fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus a thai fforddiadwy, mae'n anochel y bydd twf sylweddol mewn poblogaeth yn arwain at densiynau mewn cymunedau.[114] Pwysleisiodd Jonathan Downs o Gyngor Oldham bwysigrwydd rhoi lle i bobl i gael sgyrsiau a mynegi eu pryderon am yr heriau hyn.[115]

**104.** Nododd trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu y gall lletya ceiswyr lloches mewn gwestai, a materion a naratifau geowleidyddol ehangach ynghylch mudo, gael effaith ar gymunedau lleol ac arwain at densiynau cymunedol.[116]

**105.** Roedd yr elyniaeth gynyddol tuag at bobl sy'n ceisio noddfa yn peri pryder yn y rhan fwyaf o'r dystiolaeth, gan EYST, City of Sanctuary ac eraill.[117] Rhannodd rhanddeiliaid y trydydd sector enghreifftiau pryderus o hiliaeth ac roedd consensws cyffredinol bod hiliaeth agored a gweithredoedd gelyniaethus wedi cyrraedd lefel wenwynig.[118]

**106.** Mynegodd Race Council Cymru bryderon ynghylch y terfysgoedd a ddigwyddodd ledled y DU yn ystod haf 2024, gan ddweud:

> *"a resurgence of hostility toward refugees, echoing historical patterns of scapegoating during times of economic or social upheaval. These attacks were not isolated incidents but rather a culmination of growing anti-immigrant rhetoric, exacerbated by economic challenges, political polarisation, and sensationalist media narratives. In the years leading up to these events, political discourse increasingly framed refugees and asylum seekers as burdens on public services and threats to national security. This rhetoric, often detached from the*

[113] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 89-95
[114] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[115] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-5
[116] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu - 24 Mawrth 2025
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig SC10 EYST; SC08 City of Sanctuary
[118] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025

> *realities of refugees' experiences, created an environment where violence became more likely."*[119]

**107.** Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru yn croesawu gweledigaeth feiddgar Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, ond yn mynegi pryder ynghylch y diffyg cyllid pwrpasol i wireddu uchelgeisiau. Heb fuddsoddiad cynaliadwy, dywedant y bydd sefydliadau llawr gwlad a mentrau dan arweiniad y gymuned yn ei chael hi'n anodd gwneud newid ystyrlon, gan gynyddu'r risg o raniad a dyfnhau'r anghydraddoldebau presennol.[120] Mae eraill yn tynnu sylw at yr angen am gysondeb rhwng ac ar draws polisïau Llywodraeth Cymru, a'r angen am ganllawiau, adnoddau a chynllun cyfathrebu effeithiol.[121]

**108.** Ym mis Chwefror 2025, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol weledigaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ceiswyr noddfa yn cael eu cefnogi i'w galluogi i gyfrannu at fywyd yng Nghymru. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn "ail-ganolbwyntio ymrwymiadau" ar Genedl Noddfa ac yn cyflwyno 10 egwyddor i helpu i gyfleu'r hyn mae'r polisi'n ei olygu. Mae'r Bennod ar Genedl Noddfa yn y 'Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol' diwygiedig yn disodli'r cynllun cenedl noddfa blaenorol ac ymrwymiadau blaenorol eraill.[122]

**109.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, yn dilyn yr aflonyddwch a ysgogwyd gan lofruddiaethau Southport, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymdrechion i estyn allan at y trydydd sector, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi pobl sy'n ceisio noddfa. Cydnabu fod rhaid i ni helpu i ddatblygu'r offer hyn ar gyfer ein harweinwyr cymunedol, gan fod cymaint o'r rhai sydd ar flaen y gad o ran cefnogi ceiswyr noddfa yn y trydydd sector, a llawer ohonynt yn wirfoddolwyr.[123]

## Ein barn ni

Mae llawer o dystiolaeth o elyniaeth gynyddol tuag at geiswyr noddfa, sydd hefyd yn effeithio ar gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru. Mae hyn yn bryder difrifol.

---

[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, SC1, Race Council Cymru
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig SC 24 Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru
[121] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu - 24 Mawrth 2025
[122] Senedd (2025), Cofnod Cyfarfod Llawn, 11 Chwefror 2025
[123] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 46

Rydym yn croesawu ymrwymiad newydd Llywodraeth Cymru i fod yn Genedl Noddfa a chyflwyno 10 egwyddor i helpu i gyfathrebu a meithrin dealltwriaeth ynghylch beth mae hyn yn ei olygu a'i gwaith parhaus i gyflawni'r weledigaeth o Gymru wrth-hiliol. Mae arweinyddiaeth gref gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i ymwreiddio'r ymrwymiad hwn a galluogi cyrff cyhoeddus a sefydliadau cymdeithas sifil i wireddu'r weledigaeth hon. Bydd angen mwy o gyfathrebu, cymorth, arweiniad ac adnoddau effeithiol i hwyluso ymrwymiad gan gymunedau.

Mae angen gweithredu ar frys i roi cyfleoedd i bobl godi eu pryderon ynghylch lefelau mudo a'u hofnau ynghylch capasiti gwasanaethau lleol, yn enwedig o ran tai. Gall creu lle i drafod y materion hyn hefyd arwain at well dealltwriaeth o brofiad ceiswyr noddfa, yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r sgiliau y gallant eu cynnig.

Roedd cyfraniad Llywodraeth Cymru at y bartneriaeth 'healing the divide' yn Llanelli yn galonogol ac rydym yn credu'n gryf bod angen i'r llywodraeth weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a'r grwpiau cymunedol hynny sydd wedi bod yn arwain hyd yma.

Mae gan bob gwleidydd yng Nghymru gyfrifoldeb i arwain drwy esiampl, i ddangos tosturi a dealltwriaeth tuag at bobl sy'n cyrraedd Cymru, yn aml ar ôl profi trawma a cholled. Mae angen i ni gydnabod cryfder a gwydnwch pobl sy'n ceisio noddfa a'r cyfraniad gwerthfawr y gallant ei wneud ac y maent yn ei wneud i gymunedau Cymru.

## Lletya ffoaduriaid a cheiswyr lloches

**110.** Nid yw'r stoc o dai sydd ar gael wedi cynyddu yn unol â thwf y boblogaeth; mae prinder tai fforddiadwy a thai cymdeithasol a'r gystadleuaeth am lety cyfyngedig yn y Sector Rhentu Preifat i gyd wedi cyfrannu at farchnad dai sydd mewn argyfwng. Gall hyn fod yn fflachbwynt ar gyfer rhaniad o fewn cymunedau sy'n creu canfyddiadau ffug bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cael triniaeth ffafriol.[124]

**111.** Ers Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwneud cyfraniad allweddol at adsefydlu ceiswyr lloches. Cyflwynwyd polisi gwasgaru llawn Llywodraeth y DU yn 2023, gan ei gwneud yn orfodol i holl awdurdodau lleol y DU dderbyn ceiswyr lloches. Mae Partneriaeth Mewnfudo

[124] Tystiolaeth ysgrifenedig SC20 Tai Pawb

Strategol Cymru yn dweud bod ceiswyr lloches bellach yn cael eu lletya mewn 20 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff llety yng Nghymru ei reoli gan Clearsprings Ready Homes, cwmni preifat sydd â chontract gyda'r Swyddfa Gartref.[125]

**112.** Mae rhanddeiliaid wedi crybwyll yr heriau sy'n deillio o'r polisi gwasgaru llawn. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth ac arbenigedd am y broses lloches a gwasgaru, hawliau a hawlogaethau a chefnogi pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.[126]

**113.** Mae Cyngor Sir Ynys Môn ac eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod ehangu gwasgariad wedi bod yn arbennig o heriol mewn ardaloedd gwledig, lle mae llai o gymorth arbenigol ar gael gan sefydliadau allgymorth megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Migrant Help a'r Groes Goch.[127] Mae rhwystrau eraill i gael cymorth yn cynnwys diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, cost trafnidiaeth gyhoeddus, diffyg mynediad at gyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), anawsterau cael mynediad at gyngor cyfreithiol arbenigol a bod yn weladwy iawn mewn cymunedau llai amrywiol.[128]

**114.** Dywedodd Sefydliad Bevan ei bod yn hanfodol bod prosesau gwasgaru ceiswyr lloches yn cael eu cynllunio'n iawn. Dywedodd fod angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref, landlordiaid, cymunedau a gwasanaethau allweddol i ddatblygu strategaeth ymhell cyn cytuno ar leoli ceiswyr lloches.[129]

### Ymateb i ehangu ardaloedd gwasgaru yng Nghymru

Mae Gwasanaethau Tai yng Nghyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu hybiau cymunedol a gwasanaethau galw heibio ar draws Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy i gefnogi gwasgaru ceiswyr lloches ar draws y Gogledd-orllewin. Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol yn darparu lle i gymunedau ddod at ei gilydd mewn amgylchedd cefnogol a pharchus, yn ogystal â darparu cymorth, arweiniad a chyfeiriadau at wasanaethau gofal iechyd, tai ac addysg hanfodol, yn ogystal â chyngor ar gyflogaeth, lles a mewnfudo. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi bod

---

125 Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu - 24 Mawrth 2025
126 Tystiolaeth ysgrifenedig SC31 Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru ac SC 24 Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru
127 Tystiolaeth ysgrifenedig SC21 Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn
128 Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu - 24 Mawrth 2025
129 Tystiolaeth ysgrifenedig SC22 Sefydliad Bevan

llawer o bobl yn dod i'r tri Hwb bob wythnos a'i fod wedi datblygu i fod yn gymorth craidd i lawer.

Mae timau adsefydlu o bob un o'r tri awdurdod lleol, yn ogystal â'r tîm Cydlyniant Cymunedol, cynrychiolwyr o Migrant Help, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a'r Groes Goch, grwpiau cymunedol lleol, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau lleol eraill, yn cyfarfod bob mis i drafod arferion gorau, cael cyngor gan ei gilydd a chefnogi ei gilydd gydag unrhyw faterion anodd sy'n codi.[130]

**115.** Nid yw'r sector preifat wedi gallu darparu llety digonol i ateb y galw, sydd wedi arwain at ddefnyddio gwestai mewn rhai achosion. Cyfeiriodd llawer o randdeiliaid at y protestiadau a welwyd ar ôl i'r Swyddfa Gartref gyhoeddi'r cynllun i letya ceiswyr lloches yng Ngwesty Parc y Strade yn Llanelli yn ystod haf 2023. Roedd gwrthwynebiad lleol i'r cynllun yn canolbwyntio ar y cynnig i ddefnyddio hwb cymunedol pwysig sy'n cynnal priodasau, dathliadau a digwyddiadau lleol fel llety brys i geiswyr lloches.

**116.** Roedd rhai Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ac eraill fod wedi sylweddoli y byddai hyn yn gweithredu fel sbardun ar gyfer aflonyddwch, wedi'i danio gan bobl o'r tu allan ag agenda hollol wahanol. Dywedodd un ei fod fel pe bai ganddyn nhw daniwr sigaréts a'u bod yn tanio nes dod ar draws porfa sych, a phan gyrhaeddon nhw Westy Parc y Strade roedd llawer o borfa sych yno ac aeth y cyfan yn wenfflam.[131]

**117.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, gan nad yw'r cyfrifoldeb dros gyfiawnder a phlismona, gwrth-eithafiaeth, y cyfryngau a rheoleiddio'r rhyngrwyd a llawer o feysydd eraill o gyfraith neu bolisi wedi'u datganoli, ychydig iawn o bŵer sydd ganddi i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.[132]

**118.** Dywedodd llawer fod angen brys i gydweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref i ddatblygu ymatebion brys yn y dyfodol. Mae tystiolaeth CLlLC a Llywodraeth Cymru yn dweud bod diffyg gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref yn gwaethygu'r sefyllfa.[133] Mae rhanddeiliaid eraill yn cytuno bod absenoldeb gwybodaeth ac

[130] Tystiolaeth ysgrifenedig SC21 Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn
[131] Trafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu - 24 Mawrth 2025
[132] Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025
[133] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 174 a 207

ymgysylltu â'r gymuned wedi creu gwactod a bod yr asgell dde eithafol wedi manteisio ar hynny i ddylanwadu ar y tensiynau a'u cynyddu.[134]

**119.** Cododd grŵp rhanddeiliaid y trydydd sector bryderon sylweddol hefyd ynghylch y gwersi o Lanelli.

> *"Doing nothing is not an option anymore – it has to be active – cohesion has to become a verb not something that just is a nice to have. Llanelli is a microcosm in Wales – if that can happen in Llanelli, then it can happen anywhere in Wales."*[135]

**120.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod unrhyw agweddau gwrth-fudo yn Llanelli yn gysylltiedig â'r ffaith bod y lleoliad a ddewiswyd yn lleoliad agos at galon pobl Llanelli a bod swyddi wedi'u colli a digwyddiadau wedi gorfod cael eu canslo.[136]

**121.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Swyddfa Gartref yn treialu ffordd amgen o ddarparu llety i geiswyr lloches, a'i bod wedi ymweld â chartrefi modiwlaidd yng Nghaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol yn eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Gwnaeth hefyd sicrhau'r Pwyllgor na fyddai Clearsprings yn caffael gwesty arall yng Nghymru heb ymgynghori ag awdurdodau lleol, ond pwysleisiodd nad yw'n fater datganoledig.[137]

## Ein barn ni

Mae diwallu anghenion tai a llety pawb yn her mewn cymunedau ledled Cymru. Mae diffyg cynllunio ac ymgysylltu gan y Swyddfa Gartref wrth fynd ati i sicrhau llety i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn Llanelli, yn annerbyniol. Cafwyd beirniadaeth lem gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a chymunedau ffydd ar annigonolrwydd dull y Swyddfa Gartref.

Rydym yn cefnogi'n gryf yr angen i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio'n well ar ddarparu llety i geiswyr noddfa. Er ein bod yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet na fydd gwesty'n

[134] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163
[135] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[136] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[137] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

cael ei gaffael eto heb ymgynghoriad ymlaen llaw yng Nghymru i ddarparu llety i geiswyr lloches, nodwn y gallai hyn ddigwydd eto yn y dyfodol gan nad yw hwn yn fater datganoledig.

Mae awdurdodau lleol yn gwneud cyfraniad hanfodol at adsefydlu a chefnogi ceiswyr lloches ac rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi'r broses o wasgaru ceiswyr lloches.

**Casgliad 4.** Dylai pob gwleidydd ymddwyn yn gyfrifol wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â cheiswyr noddfa. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth glir yn y ffordd y mae'n cyfleu negeseuon o'r fath a chreu deialog gyda'r cyhoedd, yn enwedig y rhai sydd â phryderon ynghylch lletya ceiswyr lloches a defnyddio gwestai. Bydd angen llety i geiswyr lloches ledled y DU o hyd. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio â Llywodraeth y DU i dreialu tai amgen ac osgoi defnyddio gwestai, ond rhaid iddi wneud hyn drwy ymgynghori, ymgysylltu a chyfathrebu ag awdurdodau lleol, y trydydd sector a chymunedau lleol ym mhob achos.

## Cynnydd mewn eithafiaeth a'r asgell dde eithafol

**122.** Yn ei thystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Fonesig Sara Khan at dirwedd o eithafiaeth sy'n esblygu a chyflymu, gan gynnwys eithafiaeth asgell dde eithaf, eithafiaeth Islamaidd ac Incel (neu anweddol anwirfoddol). Mynegodd bryder nad oes gan y DU strategaeth ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r mater. Dywedodd:

> *"You're seeing what we call now 'salad bar' or 'pick-'n'-mix' extremism, which is where individuals pick and select from different extremist ideologies, often coming up with an incoherent extremist belief that's often used as what motivates them."*[138]

**123.** Dywed llawer o randdeiliaid, yn cynnwys CGGC, fod yr asgell dde ar gynnydd eto yng Nghymru, sy'n destun pryder.[139] Mae'r cynnydd mewn eithafiaeth asgell dde eithafol ledled y DU yn cael ei sbarduno gan deimladau gwrth-fudo, radicaleiddio ar-lein a gelyniaeth gynyddol tuag at amlddiwylliannaeth, gyda grwpiau eithafol yn camfanteisio ar gymunedau ac unigolion agored i niwed.

[138] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 3 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[139] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 31 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 5

**124.** Mae gwaith Hope not Hate yn canolbwyntio ar yr asgell dde eithafol gyfundrefnol, y cymunedau sy'n agored iddynt a'r materion a'r polisïau sy'n achosi eu twf. Mae ei adroddiadau blynyddol yn darparu adolygiad o weithgarwch yr asgell dde eithafol ledled y DU. Canfu ei adroddiad Fear and HOPE yn 2024 y canlynol:

- Cafodd y nifer uchaf erioed o weithredwyr asgell dde eithafol, a'r rhai sy'n cydweld â nhw, euogfarn o droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn 2023.
- Mae'r dde radical yn cynyddu mewn hyder i wthio polisïau gwrth-fudo, amheus o newid hinsawdd, ymrannol a phoblyddol yng ngwleidyddiaeth Prydain.
- Mae ymgyrchu gwrth-fudo yn parhau i ddominyddu'r dde eithafol.
- Mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi arwain at gynnydd enfawr mewn gwrthsemitiaeth a chasineb gwrth-Fwslimaidd yn y DU, gyda'r dde eithafol yn rhanedig ar y mater.[140]

**125.** Mae gweithgarwch yr asgell dde eithafol yng Nghymru wedi bod yn weladwy drwy'r protestiadau gwrth-fewnfudo diweddar. Sefydlwyd Llanelli Unites fel ymateb penodol i weithgareddau'r asgell dde eithafol a'r cynnydd mewn eithafiaeth, casineb a hiliaeth sy'n dal i fod yn amlwg yn Llanelli.[141] Er nad yw Gwesty Parc y Strade yn broblem mwyach, mae gweithgarwch asgell dde eithafol yn yr ardal wedi parhau, gyda negeseuon diweddar yn targedu gweithwyr y GIG o India a chasineb yn lledu y tu hwnt i fudwyr tuag at y gymuned draws, menywod a sero net.[142]

**126.** Mae angen canolbwyntio ymhellach ar gynnydd yr asgell dde radical yng Nghymru a'r hyn sy'n sbarduno'r math hwn o gefnogaeth, yn ôl Dr Anwen Elias a Llanelli Unites.[143] Er bod y rhan fwyaf o'r ymchwil sydd ar gael yn ymchwil DU gyfan, mae deall maint yr her sy'n ein hwynebu yng Nghymru yn allweddol.

**127.** Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliadau i deimladau gwrth-fudo yng Nghymru gan ystyried yr hyn a arweiniodd at wrthod ymdrechion gwrth-fudo yr asgell dde

[140] Hope not Hate, Fear and HOPE 2024: The Case for Community Resilience, Hydref 2024
[141] Tystiolaeth ysgrifenedig SC04 Llanelli Unites
[142] Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
[143] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 47 a Tystiolaeth ysgrifenedig SC04 Llanelli Unites

eithafol yn Llanilltud Fawr lle heriodd grwpiau cymunedol gwydn, gan gynnwys y clwb pêl-droed lleol a'r eglwys leol, y rhethreg asgell dde eithafol.[144] Dywedodd grŵp rhanddeiliaid y trydydd sector fod gwrth-brotest wedi gorlethu protest y grŵp asgell dde eithafol o ganlyniad i arweinyddiaeth leol dda.[145]

**128.** Mae ymchwil Hope not Hate wedi nodi bod yr asgell dde eithafol wedi canolbwyntio eu golygon ar amlddiwylliannaeth a'r syniad bod diwylliannau penodol yn fygythiad i werthoedd Prydeinig. Fodd bynnag, dangosodd y cyfrifiad diweddaraf fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn uniaethu fel rhai sydd â hunaniaeth Gymreig yn unig, felly mae gan y naratif asgell dde eithafol yn hyn o beth lai o afael yng Nghymru nag yn Lloegr. Dywed Hope not Hate fod cyfleoedd i greu cwlwm rhwng naratif cenedl noddfa a hunaniaeth Gymreig gynhwysol sy'n gallu ffurfio gwrth-naratif i'r asgell dde eithafol.[146]

**129.** Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru a rhanddeiliaid eraill yn adleisio'r pryderon hyn, gan bwysleisio sut y gall ynysu a datgysylltu ddigwydd mewn unrhyw gymuned a pha mor agored i niwed yw unigolion sy'n tynnu'n ôl o gymdeithas ac yn chwilio am ddylanwadau niweidiol eraill. Maent yn nodi pryder cynyddol ynghylch cynnydd mathau eraill o eithafiaeth, megis unigolion sy'n datgan eu hunain yn 'Incels'.[147]

**130.** Mae Dr Andrew Thomas o Brifysgol Abertawe wedi canfod bod y gymuned 'Incel' yn arwyddocaol; mae gan un fforwm ar-lein yn unig bron i 30,000 o aelodau. Er mai cymuned ar-lein yw hon, mae eu hideoleg a'u casineb at fenywod yn hyrwyddo trais yn erbyn menywod fel rhywbeth derbyniol. Mae penaethiaid yng Nghaerdydd yn cadarnhau bod arwyddion o'r ideoleg hon i'w gweld ymhlith bechgyn mor ifanc â Blwyddyn 7.[148]

**131.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod yr heriau. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw cyfiawnder a phlismona wedi'u datganoli, mae'n cyd-drafod â grŵp diddordeb arbennig Llywodraeth y DU ar atal eithafiaeth, grŵp aur cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar densiynau cymunedol a throseddau casineb a'r angen i'w haddysgu am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru.[149]

---

144 Tystiolaeth ysgrifenedig, SC24, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru
145 Nodiadau o ddigwyddiad rhanddeiliaid ar Gydlyniant Cymdeithasol - 17 Mawrth 2025
146 Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 28 Ebrill 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
147 Tystiolaeth ysgrifenedig SC29 Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
148 Tystiolaeth ysgrifenedig SC03 Prifysgol Abertawe
149 Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 12 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 82

## Ein barn ni

Gyda'r asgell dde eithafol yn mynd ati i danio aflonyddwch cynddeiriog ledled y DU yn dilyn llofruddiaeth tri o blant yn Southport yn 2024, rydym wedi gweld eu gweithgarwch yn cynyddu yng Nghymru ers hynny. Mae'r difrod a achoswyd i gymunedau fel Llanelli wrth i'r asgell dde eithafol gynhyrfu'r dyfroedd yn ein hatgoffa o gryfder y bygythiad hwn.

Gan nad yw cyfiawnder, plismona a gwrth-eithafiaeth wedi'u datganoli, mae cydweithio effeithiol rhwng llywodraethau Cymru a'r DU yn hanfodol i frwydro yn erbyn y bygythiad cynyddol a achosir gan gynnydd yr asgell dde eithafol.

Rydym yn pryderu am y bwlch yn ein dealltwriaeth o'r bygythiad a achosir gan gynnydd yr asgell dde eithafol yng Nghymru. Mae angen i ni wybod y ffordd orau o ymateb i'r heriau y mae ein cymunedau'n eu hwynebu, gan gynnwys nodi pam y digwyddodd aflonyddwch mewn rhai ardaloedd ac nid mewn eraill.

**Argymhelliad 4.** Mewn ymateb i'r bygythiadau cynyddol i gydlyniant cymdeithasol o ganlyniad i gynnydd safbwyntiau a gweithgareddau eithafol, dylai'r Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol nodi'r heriau y mae hyn yn eu peri i Gymru a nodi'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â gweithgareddau'r asgell dde eithafol a all greu rhaniad ac, yn y pen draw, arwain at aflonyddwch cymunedol a welsom yn Llanelli.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Cytunodd y Pwyllgor i archwilio'r canlynol:

- Y materion allweddol sy'n effeithio ar gydlyniant cymdeithasol yng Nghymru ac ystyried a oes angen i ymyriadau dargedu grwpiau penodol o bobl, ardaloedd daearyddol neu faterion allweddol.
- Enghreifftiau o arfer gorau ac ymyriadau eraill sydd eu hangen i gefnogi cydlyniant cymdeithasol a goresgyn tensiynau. Mae hyn yn cynnwys deall y rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae wrth gefnogi cydlyniant cymdeithasol a pha rwystrau y mae'n eu hwynebu, gan gynnwys o ran cyllid.
- Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i grwpiau a sefydliadau cymunedol a nodi unrhyw gyfleoedd i gymorth ychwanegol gael ei ddarparu. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r cyfyngiadau a'r rhwystrau sy'n bodoli, gan gofio bod rhai agweddau ar gefnogi cydlyniant cymdeithasol yn faterion a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU (er enghraifft, plismona, y cyfryngau, a rheoleiddio'r rhyngrwyd), a pha gamau y gellid eu cymryd i oresgyn yr heriau hyn.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried y cyd-destun ehangach ar gyfer cydlyniant cymunedol yn dilyn ymosodiadau wedi'u targedu at ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn cymunedau ledled y DU yn ystod haf 2024.

# Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **03 Mawrth 2025** | **Y Fonesig Sara Khan**<br>Cyn-Gynghorydd Llywodraeth y DU ac awdur Adolygiad Khan (2024)<br>**Yr Athro Ted Cantle**<br>Belong - Rhwydwaith Cydlyniant ac Integreiddio<br>**Yr Athro Dominic Abrams**<br>Prifysgol Caint |
| **17 Mawrth 2025** | **Cydlyniant cymdeithasol: Digwyddiad bord gron i randdeiliaid** |
| **24 Mawrth 2025** | **Nodyn cryno o'r drafodaeth ford gron gydag Arweinwyr Mudo ac Adsefydlu** |
| **31 Mawrth 2025** | **Dr Lindsay Cordery-Bruce**<br>Prif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>**Eleri Williams**<br>Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau<br>**Jacqueline Broadhead**<br>Cyfarwyddwr, Global Exchange on Migration and Diversity a Migration Oxford / Inclusive Cities<br>**Jonathan Downs**<br>Arweinydd Polisi Corfforaethol, Cyngor Oldham<br>**Kate James**<br>Swyddog Polisi ac Ymchwil, Migration Yorkshire |
| **28 Ebrill 2025** | **Misbah Malik**<br>Uwch Swyddog Polisi ac Ymgysylltu, Hope Not Hate<br>**Cynghorydd Mary Ann Brockelsby**<br>Arweinydd Cyngor Sir Fynwy a Llefarydd Cyfiawnder Cymdeithasol CLlLC<br>**Joe Rossiter**<br>Cyd-gyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Dr. Anwen Elias**<br>Darllenydd mewn gwleidyddiaeth, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol<br>**Yr Athro Matt Ryan**<br>Prifysgol Southampton |
| **12 Mai 2025** | **Jane Hutt MS**<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip<br>**Andrew Charles**<br>Llywodraeth Cymru<br>**John Davies**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SC01** | Race Council Cymru |
| **SC02** | Dyma Ni Befriending, Bangor |
| **SC03** | Prifysgol Abertawe |
| **SC04** | Llanelli Unites |
| **SC05** | Oasis |
| **SC05** | Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) |
| **SC07** | Carnegie UK |
| **SC08** | City of Sanctuary |
| **SC09** | Teesside University |
| **SC10** | EYST (Tîm Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru) |
| **SC11** | Age Cymru |
| **SC12** | Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr |
| **SC13** | Pupils to Parliament |
| **SC14** | Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau |
| **SC15** | Good Faith Partnership |
| **SC16** | Sefydliad Nuffield |
| **SC17** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **SC18** | Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol |
| **SC19** | Amnest Rhyngwladol |
| **SC20** | Tai Pawb |
| **SC21** | Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **SC22** | Sefydliad Bevan |
| **SC23** | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| **SC24** | Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Sanctuary Coalition Cymru |
| **SC25** | Sefydliad Chwaraeon Cymru |
| **SC26** | Yr Athro Dominic Abrams |
| **SC27** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| **SC28** | Plismona yng Nghymru |
| **SC29** | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru |
| **SC30** | Centre for Adult Social Care Research |
| **SC31** | Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru |
| **SC32** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **SC33** | HateLab |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Eitem 3 Papur i'w nodi 3.8: Llythyr gan Gomisiynydd Cendlaethau'r Dyfodol | 12 May 2025 |
| Ymweliad Pwyllgor â Gerddi'r Rheilffordd, Caerdydd | 08 Ebrill 2025 |
| Ymweliad Pwyllgor â Bartneriaeth Parc Caia, Wrecsam | 11 Ebrill 2025 |
| Ymweliad Pwyllgor â Cae Fardre, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf | 08 Mai 2025 |
| Adroddiad Cynhadledd Llanelli Unites | Ionawr 2025 |

Atodiad 4: Crynodeb o waith ymgysylltu

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cydlyniant Cymdeithasol
Canfyddiadau gwaith ymgysylltu

9 Mehefin 2025

## Cefndir

**1.** Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i 'Cydlyniant Cymdeithasol', cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, gan gynnwys cyfres o grwpiau ffocws.

**2.** Mae'r papur hwn yn seiliedig ar gyfraniadau 22 o gyfranwyr o dri rhanbarth y Senedd, a gasglwyd yn ystod tri grŵp ffocws a gynhaliwyd rhwng 25 Mawrth a 3 Mai 2025.

**3.** Cafwyd cyfranwyr drwy ACE (Gweithredu yng Nghaerau ac Elai), Canolfan Treftadaeth Indiaidd a Sunflowers Cymru.

**4.** Roedd y gwaith ymgysylltu yn cynnwys dau grŵp ffocws wyneb yn wyneb ac un grwp ffocws ar-lein (drwy Microsoft Teams). Roedd fformat y sesiynau'n gymharol debyg, ond roeddent yn amrywio rhyw ychydig yn ôl anghenion penodol y cyfranogwyr.

**5.** Mae nodiadau o bob sesiwn ar gael i'r Aelodau o wneud cais amdanynt. Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn sgil y trafodaethau.

## 1. Ystyr cydlyniant cymdeithasol

**6.** Ar ddechrau'r rhan fwyaf o grwpiau ffocws, rhannodd y cyfranwyr eu barn ar ystyr a phwysigrwydd cydlyniant cymdeithasol. Daeth ystod eang o ddiffiniadau a dehongliadau i'r amlwg yn ystod y trafodaethau.

> *"Gan fynd yn ôl i'r pwynt o gydlyniant cymunedol, rwy'n gweld hynny fel goresgyn hil, rhywedd a rhwystrau eraill fel ein bod ni i gyd yn gallu siarad a rhannu pethau cyffredin."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws*

**7.** Disgrifiodd sawl cyfrannwr ystyr cydlyniant cymdeithasol yn fras fel y gallu i fyw yn gytûn ochr yn ochr â'n gilydd gan dderbyn a chofleidio gwahaniaethau.

**8.** Ymhelaethodd un cyfrannwr ar hyn, gan esbonio, fel dyn gwyn, nad yw llawer o'r heriau sy'n wynebu grwpiau eraill yn effeithio'n bersonol arno ef, ond mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth yn fawr, gan ei weld fel rhywbeth sy'n cyfoethogi ac yn hanfodol i gymdeithas. Adleisiwyd y safbwynt hwn gan sawl cyfrannwr a honnodd fod cydlyniant cymdeithasol nid yn unig yn ymwneud â goddefgarwch, ond hefyd â dathlu'r amrywiaeth o gefndiroedd sy'n cyfrannu at gyfoeth cymunedau.

## Dathlu diwylliant

**9.** Roedd dathlu diwylliant yn thema a drafodwyd yn ystod y rhan fwyaf o grwpiau ffocws. Esboniodd cyfranwyr o Wcráin fod dathlu ac anrhydeddu diwylliant Wcráin yn ffordd bwysig o gryfhau hunaniaeth a chefnogi llesiant meddyliol, yn enwedig yn ystod cyfnod o drallod enfawr a achoswyd gan y rhyfel yn Wcráin. Er bod cynnal cysylltiadau cryf â chyd-Wcreiniaid yng Nghymru yn cael ei ystyried yn bwysig, roedd llawer yn awyddus i bwysleisio'r gefnogaeth gan y cymunedau y maent yn byw ynddynt. Roedd awydd cryf ymhlith cyfranwyr i gysylltu â'r gymdeithas yng Nghymru tra'n cadw eu hunaniaethau diwylliannol eu hunain.

**10.** Yn yr un modd, trafododd cyfranwyr lwyddiant digwyddiad yn dathlu diwylliant Indiaidd, a oedd yn cynnwys gwisgo sari, gwneud te Indiaidd, a gweithdy dawns glasurol. Er nad oedd y rhan fwyaf o'r bobl oedd yn bresennol yn dod o gefndir Indiaidd, cafodd y digwyddiad dderbyniad da iawn.

## Hunaniaeth

**11.** Trafodwyd y syniad o hunaniaeth a phwysigrwydd perthyn i gymuned yn ystod y rhan fwyaf o grwpiau ffocws hefyd. Rhannodd rhai cyfranwyr straeon personol i dynnu sylw at ba mor hanfodol yw teimlo wedi'u cysylltu a'u cefnogi gan y lleoedd a'r bobl o'u cwmpas. I lawer, mae cydlyniant cymdeithasol yn mynd y tu hwnt i gyd-fyw yn unig ac mae'n cynnwys meithrin ymdeimlad o berthyn, lle

mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau.

> *"Dywedodd rhywun wrtha i, sydd heb eu geni yma, ers iddyn nhw fyw yma, eu bod nhw'n teimlo fel Cymro. Dyma lle maen nhw'n teimlo'n gartrefol. Maen nhw'n teimlo'n ddiogel, maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu croesawu. Cyn belled ag y maen nhw'n y cwestiwn, maen nhw'n Gymry. Rwy'n credu bod hynny'n deimlad y mae angen i bobl ei gael. Nid 'ni a nhw'."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws*

# 2. Rhwystrau i gydlyniant cymdeithasol

**12.** Trafododd y rhan fwyaf o gyfranwyr yr heriau sy'n gysylltiedig â meithrin a chynnal cydlyniant cymdeithasol. Mae'r rhwystrau mwyaf cyffredin a nodwyd yn ystod y grwpiau ffocws yn cael eu crynhoi isod.

## Trafnidiaeth

**13.** Pwysleisiodd sawl cyfrannwr yr angen am gyfleoedd rheolaidd i bobl gwrdd a chysylltu, yn hytrach na digwyddiadau untro achlysurol. Ystyriwyd bod y cyfleoedd rheolaidd hyn ar gyfer rhyngweithio yn hanfodol wrth feithrin ymdeimlad o berthyn a chymuned. Roedd hyn yn arbennig o wir am gyfranwyr o Wcráin a esboniodd fod adeiladu a chynnal cydlyniant cymdeithasol ymhlith y gymuned o Wcreiniaid yng Nghymru yn heriol, yn enwedig o ystyried y gwasgariad daearyddol eang a'r boblogaeth gymharol fach.

**14.** Gwaethygwyd hyn gan y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, yn enwedig y tu allan i ddinasoedd. Mynegodd llawer o gyfranwyr rwystredigaeth ynghylch pa mor anodd yw hi i gael mynediad at ddigwyddiadau diwylliannol a chymunedol oherwydd gwasanaethau cyfyngedig neu annibynadwy. Er enghraifft, disgrifiodd rhai deithiau o ddwy awr bob ffordd i fynd i grwpiau dawnsio wythnosol, yr oeddent yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cynnal cysylltiadau. Dywedodd eraill fod absenoldeb llwyr neu gyfyngiad sylweddol ar wasanaethau ar ddydd Sul yn ei gwneud hi'n anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau penwythnos sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol.

## Colli mannau cymunedol

**15.** Hefyd trafododd y cyfranwyr effaith y newidiadau i fannau cymunedol. Fel enghraifft, soniodd un cyfrannwr fod rhandiroedd wedi'u cau yn ei ardal, a oedd un tro yn cael eu hystyried yn gonglfaen i'r gymuned. Yn y gorffennol, roedd rhandiroedd mawr yn ganolfannau cymunedol hunangynhaliol lle roedd pobl yn cefnogi ei gilydd mewn ffyrdd anffurfiol, ymarferol, megis rhannu bwyd gyda theuluoedd mewn angen. Roedd y mannau hyn yn annog ysbryd o haelioni a chysylltiad y mae llawer yn teimlo sydd wedi'i golli.

**16.** Cafodd lleoedd fel canolfan gymunedol Dusty Forge eu canmol fel rhai hanfodol, gan ddarparu man ffisegol lle gall cysylltiadau ffynnu. Pwysleisiodd un cyfrannwr bwysigrwydd mannau cymunedol sy'n cynnig cefnogaeth, yn enwedig i unigolion sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n dioddef gyda'u hiechyd meddwl.

**17.** Ystyriwyd bod cost gynyddol mannau cymunedol, ynghyd â'r dirywiad mewn gweithgareddau cymunedol, yn cyfrannu at erydiad yr amgylcheddau agos-atoch, cefnogol hyn.

## Rhwystrau ariannol

**18.** Ehangodd trafodaeth am gostau llogi, rhentu neu brynu mannau cymunedol i sgwrs ehangach am oblygiadau ariannol trefnu a mynychu digwyddiadau, prosiectau a mentrau eraill. Ystyriwyd bod cymorth ariannol i leoliadau yn hanfodol i feithrin mwy o gydlyniant a galluogi rhyngweithio ystyrlon rhwng grwpiau amrywiol.

**19.** Tynnodd cyfranwyr sylw at bwysigrwydd cael mannau diogel a hygyrch i ymgynnull, yn enwedig ar gyfer cymunedau lleiafrifol a mudwyr. Soniwyd am sawl ardal fel Mayhill, Townhill a Port Talbot fel rhai â heriau logistaidd (o ran trafnidiaeth gyhoeddus) a chymdeithasol (ymddygiad gwrthgymdeithasol). Mae rhai cyfranwyr hefyd yn holi sut mae adnoddau yn cael eu dyrannu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ar flaenoriaethau cyllido lleol.

**20.** Roedd prosiectau cymunedol sy'n dibynnu ar gyllid yn cael eu hystyried yn fwyfwy anodd i'w cynnal, ac mae cyfleusterau chwaraeon, sy'n helpu i gadw sylw pobl ifanc ac yn lleihau'r risg o drwbl, yn cael eu hystyried yn hanfodol ond yn aml wedi'u tanariannu.

**21.** Trafododd eraill y pwysau ariannol sy'n wynebu llawer o bobl o ran mynychu digwyddiadau neu fentrau cymunedol. Dywedodd llawer fod y cynnydd mewn costau byw a'r toriadau i fudd-daliadau wedi cyfrannu at hyn ac wedi gadael

grwpiau agored i niwed yn enwedig - sef y rhai â'r lleiaf o allu i ysgogi newid yn aml - yn teimlo'n ddatgysylltiedig ac heb gefnogaeth.

> *"Mae costau digwyddiadau yn rhwystr. Mae pobl yn hoffi mynd i ddigwyddiadau ond nid yw rhai yn gallu fforddio gwneud hynny. Gall y niferoedd mewn digwyddiadau amrywio oherwydd hyn. Rydym yn ceisio trefnu digwyddiadau am ddim lle bo modd. Er enghraifft, rydyn ni'n cynnal sesiynau ioga am ddim."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws*

## Newidiadau diwylliannol

**22.** Roedd y drafodaeth hefyd yn sôn am newidiadau ehangach yn y ffordd y mae pobl yn cysylltu. Nododd cyfranwyr fod y dirywiad mewn cyfleoedd i ymgynnull yn bersonol wedi cyd-fynd â chynnydd yn y defnydd o gyfathrebu digidol. Roedd rhai o'r farn bod y newid hwn o ran cyfathrebu wedi arwain at gymdeithas fwy ynysig. Mae pobl yn llai tebygol o estyn allan neu ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn aml yn dewis tecstio neu gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn hytrach na gwneud galwadau ffôn.

**23.** Mae'r newid hwn o ran cyfathrebu, ynghyd â'r gostyngiad mewn mannau cymunedol lle gallai pobl ddod at ei gilydd yn naturiol, wedi ei gwneud hi'n anoddach i bobl ffurfio'r cysylltiadau cryf, cefnogol a oedd unwaith yn nodwedd o lawer o gymunedau yng Nghymru.

**24.** Ar y llaw arall, eglurodd rhai cyfranwyr y gall integreiddio â gwahanol gymunedau olygu newid mewn meddylfryd diwylliannol - rhywbeth nad yw'n aml yn cyd-fynd â rhai pobl, nac yn apelio atynt.

> *"I gymunedau Indiaidd a De Asiaidd, gall integreiddio â'r gymuned leol fod yn anodd weithiau, yn ôl pob tebyg oherwydd materion diwylliannol. I berthyn i'r gymuned leol mae rhai yn teimlo fel bod yn rhaid iddyn nhw fynd i'r dafarn, ond nid yw hynny'n ffitio gyda nhw o reidrwydd. Ond maen nhw eisiau cwrdd â phobl leol a chymryd rhan yn eu gweithgareddau. Mae rhai yn lwcus - mae gennym ni blant sy'n hoffi chwaraeon, ond nid oes gan bawb hynny."*
>
> *Aelod o grŵp ffocws*

### Y Cyfryngau

**25.** Nododd cyfranwyr hefyd effaith negyddol y cyfryngau, yn enwedig yn y ffordd y mae materion fel mewnfudo yn cael eu portreadu. Roedd llawer yn teimlo bod y wasg yn gorsymleiddio materion cymhleth, yn aml yn canolbwyntio ar straeon unochrog, chwyddedig sy'n cyfrannu at raniad a chamddealltwriaeth. Mae'r portread hwn, dadleuodd rhai, yn arwain at wahanu cymunedau yn hytrach na meithrin cydweithrediad a dealltwriaeth.

## 3. Cydlyniant cymdeithasol cadarnhaol

**26.** Rhannodd rhai cyfranwyr yn y grŵp ffocws brofiadau cadarnhaol o sut mae cymorth cymunedol wedi chwarae rhan sylweddol wrth eu helpu i deimlo'n gysylltiedig â'u cymuned.

**27.** Disgrifiodd un cyfrannwr o Wcráin ei brofiad o fyw gyda theulu lletyol, a'i helpodd i integreiddio i'r gymuned. Darparodd y teulu hwn eitemau hanfodol i blentyn y cyfrannwr a'u cyflwyno i grwpiau ac adnoddau babanod lleol. Mynegodd y cyfrannwr ei ddiolchiadau mawr am y gefnogaeth, a oedd yn caniatáu iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn eu hysgogi i ymgysylltu â grwpiau cymunedol, cael gwersi Saesneg, a chwilio am gyfleoedd gwaith.

**28.** Tynnwyd sylw hefyd at yr ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch a grëwyd gan sefydliadau'r trydydd sector fel rhywbeth arbennig o werthfawr. Disgrifiodd cyfranwyr o Wcráin bod mynd i ddigwyddiadau yn gyfle iddynt ymlacio, teimlo'n ddiogel a siarad eu hiaith Wcreineg frodorol, a ystyriwyd yn arbennig o bwysig. Er bod cyfranwyr yn cydnabod pwysigrwydd addasu i'w hamgylchedd newydd ac integreiddio i gymdeithas yng Nghymru, roedd cadw cysylltiad â'u mamwlad a'u hiaith yr un mor bwysig ar gyfer eu hunaniaeth a'u llesiant meddyliol.

**29.** Eglurodd rhai cyfranwyr fod sefydliadau fel Cyngor Hil Cymru wedi caniatáu iddynt ddefnyddio mannau mewn lleoliadau fel Theatr y Grand Abertawe, lle maent yn ymgynnull ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae hyn wedi caniatáu iddynt gadw eu traddodiadau yn fyw, gan gynnwys rhannu cerddoriaeth o Wcráin gyda'u plant a chymryd rhan mewn dawnsio traddodiadol o Wcráin, a grybwyllwyd sawl gwaith ac a ystyriwyd yn bwysig iawn.

**30.** Roedd cyfranwyr hefyd yn cydnabod y gefnogaeth gan gymunedau lleol eraill, fel y gymuned Pwylaidd yn Llanelli a'r gymuned Twrcaidd yn Abertawe, sydd wedi bod yn allweddol wrth gynnig cymorth, gan gynnwys codi arian a rhannu

cyfleoedd gwaith. Mae rhyngweithio â'r cymunedau hyn wedi creu amgylchedd amlddiwylliannol cyfoethog.

**31.** Tynnodd cyfranwyr sylw at nifer o fentrau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gydlyniant cymdeithasol, a oedd yn cynnwys rhaglenni cinio, grwpiau dynion a grwpiau menywod mewn mannau fel St. Vincent's. Enghraifft arall o arfer da wrth feithrin cydlyniant cymdeithasol oedd prosiectau gerddi cymunedol, sy'n annog cymysgedd o wirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd. Roedd rhannu profiad o weithio ar yr un prosiect, a gweld canlyniadau penodol yr ymdrech ar y cyd, yn cael ei ystyried yn sbardun allweddol ar gyfer cydlyniant. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranwyr fod bwlch o ran gweithgareddau gyda'r nos, gan adael rhai yn teimlo wedi'u hynysu gyda'r nos.

**32.** Y tu hwnt i ddod ynghyd yn gorfforol, roedd cyfranwyr hefyd yn cydnabod rôl mannau digidol o ran dod â phobl at ei gilydd. Er bod y cyfryngau cymdeithasol yn aml yn cael sylw negyddol, rhannodd un cyfrannwr enghraifft lle gwnaeth postiad am sgwter plentyn oedd wedi'i ddwyn arwain at y gymuned gyfan yn cynnig cefnogaeth.

# 4. Atebion i rwystrau i gydlyniant cymdeithasol

**33.** Wrth drafod atebion posibl i rwystrau i gydlyniant cymdeithasol, eglurodd rhai fod hyn yn gymhleth ac yn aml bod sawl haen iddynt.

> *"Mae cydraddoldeb yn derm mawr iawn, ond yr hyn rydw i'n chwilio amdano yw tegwch. Mae hynny'n ofod pwysicach i fod yn gweithredu ynddo. Y foment rydyn ni'n dweud ein bod ni eisiau newid y system bresennol yn enw cydraddoldeb, dyna lle mae gennym ni broblemau a lle mae'r teimlad cenedlaetholgar yn dod i mewn ac mae ein problemau ein hunain yn dechrau. Dylem fod yn ymwybodol o'r hyn rydym ni'n ceisio ei gyflawni. Er ein bod ni'n meddwl ac yn credu nad oes system ddosbarth yma, mae'n dod yn fater o ragfarn economaidd – dyma lle byddwn i'n dweud bod ymwybyddiaeth yn chwarae rhan bwysig. Mae pob un ohonom sy'n gweithio mewn swyddi proffesiynol yn hynod gyfforddus lle rydyn ni'n gweithio, ond ni allwn ddweud yr un fath pan fyddwn yn y gymuned. Y foment y mae pobl yn sylweddoli ein bod ni'n cyfrannu, cyfoethogi, galluogi, mae'n hollol wahanol. Felly os gallwn droi hynny a newid y negeseuon fel bod pobl yn deall mai oherwydd pobl o wahanol gefndiroedd sy'n ein cefnogi mewn iechyd,*

> *meddalwedd ac academia mae gennym gymuned â chydlyniant, mae hynny'n newid yr agwedd.*
>
> *Mae hefyd yn ymwneud â deall diwylliant nid fel crefydd, ond yn fwy cymdeithasol. Nid yw llawer ohonom ni bobl Indiaidd yn dod o gefndiroedd crefyddol, rydyn ni'n dod o gefndiroedd diwylliannol."*
>
> ***Aelod o grŵp ffocws***

**34.** Pwysleisiodd cyfranwyr eraill bwysigrwydd mentrau cymunedol sy'n meithrin cysylltiadau a chefnogaeth. Tynnwyd sylw at grwpiau fel Men's Sheds a gweithgareddau chwaraeon lleol, ar gyfer plant ac oedolion, fel ffyrdd ardderchog o ddod â phobl at ei gilydd. Yn yr un modd, ystyriwyd bod mentrau ariannu fel banciau bwyd, cymorth cyfleustodau a chyngor ariannol mewn canolfannau cymunedol lleol yn bwysig.

**35.** Er bod llawer o gyfranwyr yn cydnabod bod mwy o gyllid ar gyfer mannau a phrosiectau cymunedol yn anodd mewn hinsawdd economaidd heriol, maent yn honni bod prosiectau yn brwydro i oroesi gyda nifer fach iawn o adnoddau heb y cyllid hwn. Esboniodd rhai fod y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol wedi arwain at ostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael, er gwaethaf y galw cynyddol. Roedd yr ansicrwydd ynghylch cyllid tymor byr ac effaith cau adnoddau cymunedol yn bryderon sylweddol, gan fod y toriadau hyn yn creu ymdeimlad o ansefydlogrwydd.